Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 481 · Hydref 2017 · 50c

Llwyddo i gyflawni camp

Ar ôl misoedd o ymarfer, llwyddodd Graham Davies i gwblhau triathlon IRONMAN Cymru yn Ninbych y Pysgod ddydd Sul, Medi 10fed.

Roedd Graham yn gorfod nofio 2.4 milltir yn y môr, beicio 122 milltir a rhedeg marathon ar ei ddiwedd, sef 26.6 milltir. Er mwyn llwyddo, roedd hyn i gyd angen ei gwblhau o fewn 17 awr. Llwyddodd Graham i'w gwblhau mewn 15.59.02. Cryn gamp, yn wir!

Rhaid bod yn athletydd o'r iawn ryw cyn mentro cystadlu heb sôn am llwyddo o fewn 17 awr. Doedd y gystadleuaeth ddim wedi gweld tywydd cynddrwg ers ei chychwyn 7 mlynedd yn ôl, ac felly roedd cyflawni'r tair her o fewn yr amser penodol eleni yn gofyn am fwy o nerth, ymdrech a dyfalbarhad.

Roedd yr her gyntaf, sef nofio 2.4 milltir, yn cychwyn ar draeth gogleddol Dinbych y Pysgod sy'n lleoliad trawiadol, gyda'r beicio'n dilyn ar hyd cwrs a oedd â thair gallt eithriadol o serth. Yna, marathon i ddiweddu!

Yn ôl y rhai sy'n ymwneud â'r gamp, y paratoi yw'r allwedd – yr ymarfer corfforol a'r bwyta priodol a'r gwaith cartref trylwyr. Rhaid adnabod y cwrs, cynllunio'n ofalus ac ei gyfer, ac yn bennaf oll, meithrin disgyblaeth i reoli'r meddwl er mwyn medru cynnal yr ewyllys i yrru ymlaen.

Trwy'i ymdrech, llwyddodd Graham i godi £1,000 i adran mini ac iau Clwb Rygbi Bethesda.

Llongyfarchwn Graham ar ei gamp. Mae o'n ysbrydoliaeth i'r bobl ifanc sydd â'u bryd ar ddatblygu eu medrau corfforol a chystadlu mewn chwaraeon o bob math.

GŴYL FAWR Y DYFFRYN

Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen

(Dwy sesiwn o fwynhad pur!)

* * * * * * * *

Nos Wener, 17 Tachwedd 2017
6.00yh yn Neuadd Ogwen

Seremoni'r Orsedd,
Cystadlaethau'r Corau
Unawdau Lleisiol ac Offerynnol
a Chystadlaethau i Ysgolion Uwchradd

* * * * * * * *

Sadwrn, 18 Tachwedd 2017
10.00yb yn Ysgol Dyffryn Ogwen

Gwledd o Gystadlaethau Cynradd:
Canu, Llefaru, Dawns, Celf a Chrefft

Dweud eich dweud am faterion trosedd ac anhrefn

Mae Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd ac Ynys Môn eisiau holi barn trigolion Gwynedd am faterion 'trosedd ac anhrefn' yn eu cymunedau. Y nod yw gwneud Gwynedd ac Ynys Môn yn llefydd diogel i fyw, gweithio ac ymweld â nhw.

Mynegwch eich barn yn glir a chadarn am y sefyllfa fel yr ydych chi yn ei gweld yn yr ardal. Mae holiadur ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd: www.gwynedd.llyw.cymru/ymgynghori neu mae copïau papur ar gael o Siopau Gwynedd (Caernarfon, Dolgellau a Phwllheli) a'r llyfrgelloedd. Mae'r ymgynghoriad ar agor tan 27 Hydref 2017.

Llais Ogwan

Panel Golygyddol

Derfel Roberts
☎ 600965
hylaw@btinternet.com

Ieuan Wyn
☎ 600297
ieuanwyn01@gmail.com

Lowri Roberts
☎ 600490
l.roberts11@btinternet.com

Dewi Llewelyn Siôn
☎ 07940 905181
dewision@hotmail.co.uk

Fiona Cadwaladr Owen
☎ 601592
fionaowen28@gmail.com

Neville Hughes
☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

Dewi A Morgan
☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

Trystan Pritchard
☎ 07402 373444
trystanrp1@gmail.com

Walter a Menai Williams
☎ 601167
waltermenai@yahoo.co.uk

Orina Pritchard
☎ 01248 602119
orinapritchard@gmail.com

Rhodri Llŷr Evans
☎ 07713 865452
Rhodri.llyr.evans@gmail.com

Swyddogion

Cadeirydd:
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3DT ☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

Trefnydd hysbysebion:
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA
☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

Ysgrifennydd:
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH
☎ 601415
garethllwyd197@btinternet.com

Trysorydd:
Godfrey Northam, 4 Llwyn
Bedw, Rachub, Llanllechid
LL57 3EZ ☎ 600872
godfreydnortham@hotmail.co.uk

Y Llais drwy'r post:
Owen G Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3NN ☎ 600184
post@llaisogwan.com

Golygydd y mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan Ieuan Wyn.

Golygydd rhifyn mis Tachwedd fydd Rhodri Llŷr Evans, 2 Rhos y Nant, Bethesda, LL57 3PP.
07713 865452
E-bost: Rhodri.llyr.evans@gmail.com

Pob deunydd i law erbyn **dydd Mercher, 1 Tachwedd** os gwelwch yn dda.
Plygu **nos Iau, 16 Tachwedd**, yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45.

Cyhoeddir gan
Bwyllgor Llais Ogwan @Llais_Ogwan

Cysodwyd gan Elgan Griffiths,
elgangriffiths@btinternet.com
☎ 01970 627916
Argraffwyd gan *y Lolfa*

Nid yw pwyllgor Llais Ogwan na'r panel golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno â phob barn a fynegir gan ein cyfranwyr.

Mae Llais Ogwan ar werth yn y siopau isod yn Nyffryn Ogwen:

Dyffryn Ogwen
Londis, Bethesda
Siop Ogwen, Bethesda
Cig Ogwen, Bethesda
Tesco Express, Bethesda
SPAR, Bethesda
Siop y Post, Rachub

Bangor
Siop Forest
Siop Menai
Siop Ysbyty Gwynedd

Caernarfon
Palas Print

Porthaethwy
Awen Menai

Rhiwlas
Garej Beran

EGLWYS UNEDIG BETHESDA LLENWI'R CWPAN
Dewch am sgwrs a phaned
Bob bore **dydd Iau** rhwng **10.00** o'r gloch a hanner dydd

Dyddiadur y Dyffryn

Hydref

20 Trydedd Darlith Goffa Archesgob John Williams. Eglwys Sant Tegai am 7.00.
21 Bore Coffi Eisteddfod Dyffryn Ogwen. Cefnfaes. 10.00 – 12.00.
23 Te bach. Ysgoldy Garmel. 2.30 – 4.00.
25 Noson Goffi Cronfa Logan Sellers. Festri Bethlehem Talybont am 7.00.
25 Clwb Llanllechid yn Festri Carmel.
26 Cyfarfod Blynyddol Cwmni'r Llechen Las. Neuadd Ogwen am 8.00.
28 Bore Coffi Eglwys Sant Cedol. Cefnfaes. 10.00 – 12.00

Tachwedd

02 Sefydliad y Merched Carneddi. Cefnfaes am 7.00.
04 Bore Coffi Neuadd Talgai. Cefnfaes. 10.00 – 12.00.
11 Bore Coffi Gorffwysfan. Cefnfaes. 10.00 – 12.00.
11 Marchnad Ogwen. Neuadd Ogwen. 9.30 – 1.00.
13 Cymd. Hanes Dyffryn Ogwen. Festri Jerusalem am 7.00.
15 Cyfarfod Blynyddol Llais Ogwan. Cefnfaes am 7.00.
16 Plygu Llais Ogwan. Cefnfaes am 6.45.
17 Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen. Neuadd Ogwen am 6.00.
18 Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen. Neuadd Ysgol Dyffryn Ogwen am 10.00.
22 Marchnad Nadolig Ogwen. Neuadd Ogwen. 5.00 – 8.00.

Modurdy Central
Ceir ail-law ar werth
M.O.T. ar gael
Hefyd
Trwsio a Gwasanaeth
Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda
☎601031

Archebu trwy'r post

Gwledydd Prydain - £20
Ewrop - £30
Gweddill y Byd - £40

Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com ☎ 01248 600184

Rhoddion i'r Llais

£20.00 Er cof am Delwyn oddi wrth Glen a'r teulu.
£10.00 Di-enw.
£20.00 Margaret Williams, 6 Rhos y Coed, Bethesda.
£20.00 Llew ac Enfys Jones, 2 Cae Gwigin, Talybont, ar achlysur dathlu 69fed pen-blwydd eu priodas ar 6 Hydref.
£50 VV Jenkins

Diolch yn fawr.

Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

Gwobrau Hydref

£30.00 (119) Helen Wyn Williams, Llwynbleddyn, Rachub.
£20.00 (22) Don Hughes, Ripponden, Halifax.
£10.00 (141) Iona Wyn Jones, 16 Pentre Llandygái.
£5.00 (14) Evelyn Lupson, Pensby, Wirral.

Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â Bryn yn swyddfa'r deillion, Bangor
01248 353604

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:

Gareth Llwyd ☎ 601415
Neville Hughes ☎ 600853

TEMPLE MORRIS A'I FAB

Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.
07770 900531
01248 600282
jtemplemorris@btinternet.com

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru

CYMRAEG

Caerhun a Glasinfryn

Marred Glyn Jones, Arwel, 169 Ffordd Penrhos, Bangor LL57 2BX
☎ 01248 351067
marred567@btinternet.com

Angen Gohebydd ar frys!
Fel y gwelwch o'r cyfeiriad uchod, dw i wedi symud tŷ ac felly mae angen gohebydd newydd ar gyfer Glasinfryn, Waen Wen a Chaerhun ar gyfer y Llais. Os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch â mi cyn gynted â phosib ar y rhif ffôn uchod, os gwelwch neu dda, neu cysylltwch drwy e-bost. Dydi'r gwaith ddim yn feichus o gwbwl. Mae'n bwysig fod gohebydd newydd yn cymryd drosodd neu mi fydd 'na fwlch yn y Llais a dim newyddion o Lasinfryn, Caerhun a Waen Wen yn y rhifyn nesaf! Felly, beth am i chi wirfoddoli? Diolch i bawb sydd wedi anfon newyddion ata' i dros y blynyddoedd a dw i'n gobeithio y bydd gohebydd newydd mewn lle erbyn y rhifyn nesaf o'r Llais.

Bingo
Diolch yn fawr iawn i bawb am gefnogi a chyfrannu'n hael iawn at y sesiwn Bingo a gynhaliwyd yn y Ganolfan yng Nglasinfryn ar 29 Medi i godi arian tuag at Ysbyty Cefni, Llangefni. Gwnaed elw arbennig o dda o £180! Cynhelir y sesiwn Bingo nesaf ar 20 Hydref, gyda'r elw yn mynd tuag at Ward Oswald, Ysbyty Gobowen.

Cydymdeimlo
Ar 9 Medi bu farw Robert (Bobby) Clarke, gynt o 10 Waen Wen, yn 63 oed, yn Tarporley, Sir Gaer, cartref ei chwaer Angela, wedi gwaeledd hir. Pob cydymdeimlad i'r teulu yn eu profedigaeth.

Ar 12 Medi bu farw Owen Prytherch o Borthaethwy, brawd Elizabeth Evans, Penhower Uchaf, a'r diweddar John Prytherch, Waen Wen. Cydymdeimlwn â'r teulu yn eu colled.

Priodas
Llongyfarchiadau calonnog i Anna a Dewi Griffith, Bryn Gwredog Isaf, ar achlysur eu priodas ym Mhortmeirion ar y 1af o Fedi. Pob dymuniad da a hapusrwydd i chwi eich dau.

Marian a Maria
Ar 15 Medi cynhaliwyd cyflwyniad un act, "Bywyd gyda'r Signora" ym Mhontio, Bangor, sef stori am y gantores opera enwog, Maria Callas, yn dilyn ei marwolaeth 40 o flynyddoedd yn ôl. Marian Bryfdir, Bro Eryri, Waen Wen, oedd yn cymryd rhan Bruna Lupoli, morwyn Maria. Roedd y sioe yn edrych yn ôl ar fywyd personol a gyrfa'r gantores, gyda'r soprano, Ann Williams-King, yn cymryd rhan Maria Callas, yn canu arias o'i rhannau enwocaf. Ysgrifennwyd a chyfarwyddwyd y sioe gan Jamie Glyn Bale, mab Marian.

Y Cylch
Cafwyd noson ddiddorol yng nghwmni'r Dr Shaun Russell yn y Cylch nos Fercher 13 Medi. Cyflwynwyd Dr Russell inni gan Dr Ann Illsley sydd yn gweithio'n rhan amser yng ngerddi Treborth lle mae Dr Russell yn gyfarwyddwr. Roedd ei wybodaeth eang o Ynysoedd y Falkland, lle bu'n gwneud gwaith ymchwil ar y tirwedd yn 2015, yn ardderchog. Botaneg yw ei bwnc ac fe aeth i'r ynysoedd i wneud gwaith ymchwil ar fwsog a chen y cerrig (lichen). Mae'r tirwedd yno yn llwm a chreigiog ac oherwydd y tywydd garw a gwyntog does fawr o goed yn llwyddo i dyfu. Dipyn o lwyni eithin yma a thraw sy'n gysgod i'r miloedd o ddefaid sy'n pori'r ynysoedd a digonedd o fawn sy'n cael ei ddefnyddio gan yr ynyswyr fel tanwydd. Mwsog sy'n gorchuddio rhan helaeth o'r tirwedd a dyma oedd gwaith Dr Russell yno sef ymchwilio i'r gwahanol fathau o dyfiant. Rhoddodd gipolwg trwy sleidiau o'r ffordd o fyw ar yr ynysoedd, y drafnidiaeth, yr adar, yr anifeiliaid a'r pysgod, a rhoi blas o'i brofiad yn byw mewn lle mor bell o'r tir mawr. Roedd Dr Russell yn gwmni arbennig o wybodus a difyr ac edrychwn ymlaen at ei ymweliad nesa' â'r Cylch.

Cofiwch am ein cyfarfod nesaf ar Dachwedd y 1af yn y Ganolfan yng Nglasinfryn am 7.00 o'r gloch. Y ffotograffydd Pierio Algieri fydd yn gwmni inni. Bydd yn sgwrsio am ei waith ac yn dangos sleidiau o'i luniau, a bydd cardiau a chalendrau ar werth.

ANGEN BOD YN WYLIADWRUS O FASNACHWYR TWYLLODRUS POSIB

Yn dilyn adroddiadau am fasnachwyr twyllodrus posib yn gweithredu yng Ngwynedd, mae Safonau Masnach y Cyngor yn cynghori trigolion lleol i fod yn wyliadwrus wrth ddelio â masnachwyr sy'n galw yn eu cartrefi yn cynnig gwaith trwsio ar eu heiddo. Mae'r math o waith sy'n cael ei gynnig yn amrywio o darmacio, gosod slabiau, a glanhau lleiniau a waliau allanol. Cynghorir preswylwyr hefyd na fydd masnachwyr twyllodrus yn aml yn darparu gwaith papur, a byddai hyn yn ei gwneud yn anodd iawn cael gafael ar y masnachwyr. Os oes gan unrhyw un unrhyw bryderon ynghylch unrhyw faterion masnachu twyllodrus yng Ngwynedd, cysylltwch â gwasanaeth Safonau Masnach y Cyngor trwy e-bostio safmas@gwynedd.llyw.cymru neu ffonio'r tîm ar 01766 771000.

Dau frodor o Fethesda ar fwrdd HMS Queen Elizabeth

Roedd Chief Petty Officer Matthew Whitehead a Leading Phot Ioan Roberts ar fwrdd y llong awyrennau newydd HMS Queen Elizabeth pan oedd ar ei mordaith brawf gyntaf o Rosyth yn yr Alban i'w chartref newydd yn Portsmouth.

Ymunodd Matthew Whitehead â'r Llynges Frenhinol ddeunaw mlynedd yn ôl, ac i ddechrau, aeth ar y llong HMS Cardiff, a gyda hi, aeth i roi cymorth ar ôl trychineb storm a llifogydd i ynys Haiti. Ac fel y dywediad "ymunwch a'r Llynges i weld y byd", mae Matthew wedi ymweld â holl gyfandiroedd y byd. Yn 2003, roedd ar HMS York yn y rhyfel yn Iraq, ac mae wedi bod ar Ynysoedd y Falkland a hefyd Awstralia. Drwy ei yrfa, mae wedi cyfarfod ein Brenhines a Thywysoges Ann.

Dechreuodd Matthew ei yrfa yn y Llynges fel arfogwr, ond yna aeth ymlaen i ganolbwyntio ar gyfathrebu a gweithio i fyny'r rhengoedd i fod yn bennaeth y Grŵp Rhwydwaith, fel rhan o Systemau Gwybodaeth a Chyfathrebu. Tra oedd yn yr Uned Gyfathrebu Arbennig, roedd yn dylunio cyfarpar cyfathrebu cudd ynghyd â GCHQ.

Ym Maes Coetmor yr oedd cartref Matthew ym Methesda, ac aeth i ysgolion Llanllechid a Dyffryn Ogwen cyn gadael am y Llynges ym 1999. Ers tua wyth mlynedd, mae'n byw yn Gosport gyda'i wraig Katie - sydd yn Heddlu'r Llynges, a'u merch fach Arianwen sy'n ddwy oed.

Yn 2005 ymunodd Ioan Roberts â'r Llynges, a dechreuodd ei yrfa ar HMS Pembroke. Pan ddywedodd wrth y Capten fod ganddo ddiddordeb mewn ffotograffiaeth, rhoddwyd swydd ffotograffydd y llong iddo. Yna, ar ôl treulio amser yn Uned Ffotograffig Faslane yn yr Alban, aeth am saith mis o hyfforddiant yn yr Ysgol Ffotograffig Filwrol yn Cosford ger Telford. Oddi yno, ymunodd â'r Ganolfan Weithredu Media Amddiffyn yn Halton ger Aylesbury. Tra oedd yno, aeth i Ynysoedd y Falkland, a ddwywaith i Affganistan; treuliodd ychydig ddyddiau mewn llong danfor niwclar, ac un uchafbwynt oedd bod ur unig ffotograffydd gyda William Hague ac Angelina Jolie yn Uganda. Yna, cael ei drosglwyddo i Yeovilton - maes awyr y Llynges Frenhinol, lle roedd yn gweithio gyda hofrenyddion, cyn symud i Portsmouth lle y mae gyda'i deulu heddiw.

Cartef Ioan ym Methesda oedd Bryn Derwen Isaf, a cafodd ei addysg yn Ysgol Abercaseg, ysgolion Cae Top a Friars a hefyd yng Ngholeg Menai. Yn 2009, cafodd Ioan gyfle i fynd ar ymweliad gyfnewid i Lynges Awstralia yn Sydney.

Matthew Whitehead ac Ioan Roberts

Yno, cyfarfod Leading Hand Michaela Brown, ac ar ôl aml i daith ar draws y byd, priodi yn Mudgeeraba ger Brisbane a'r ddau yn dychwelyd i Brydain i Ioan gwblhau ei yrfa yn y Llynges. Yn wythnos olaf 2013, ganwyd eu gefeilliaid Logan a Ffin yn Robina ger Mudgeeraba, a daeth Michaela a'r ddau pan yn bedwar mis oed i fyw gyda Ioan yn Yeovil. Tebyg y bydd Ioan yn gorffen yn y Llynges yn gynnar flwyddyn nesaf ar ôl cwblhau 12 mlynedd, ac yna bydd y teulu yn symud i fyw i Awstralia i ddechrau bywyd a gyrfa newydd.

Yn 280 metr o hyd (920 troedfedd) a thros 70 mil o dunelli, HMS Queen Elizabeth, llong faner ein Llynges, yw'r llong ryfel fwyaf erioed i gael ei hadeiladu i'r Llynges Frenhinol, ac er ei bod yn ei chartref ym Mhortsmouth, bydd yn 2020 pan fydd yn llwyr barod i ddechrau gyda'i dyletswyddau. Yn 2018, bydd yn hwylio i'r Unol Daleithiau i gasglu ac ymarfer ei hawyrennau F-35B Lightning II V/STOL a gyda rheini bydd ychydig o hofrenyddion fel y Merlin a'r Chinook. Maent yn gobeitho y bydd yr ail long awyrennau HMS Prince of Wales yn barod yn 2023.

Emyr Roberts

Braichmelyn

Rhiannon Ifans, Glanaber, Pant, Bethesda ☎ 600689

Cofion
Anfonwn ein cofion at bawb sydd ddim yn dda ac yn gaeth i'w cartrefi. Mae'r annwyd o gwmpas yr ardal.

Cofion at Mrs Norma Jones, 2 Penygraig ym Mryn Seiont newydd sydd ddim yn dda ar hyn o bryd.

Rydym yn meddwl am ac yn anfon ein cofion at Stephen Griffiths hefyd yn ei waeledd yntau.

Ymgartrefu
Braf yw gweld plant yn chwarae yng ngardd Llys Meurig – y teulu bach yn ymgartrefu'n iawn.

Ymgymerwr adeiladu a gwaith saer
Ronald Jones
Bron Arfon, Llanllechid
Bethesda
☎ 01248 601052

L. Sturrs
a'i feibion
sefydlwyd yn 1965
ADEILADWYR
Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda
Ffôn: 600953
lsturrs@googlemail.com

BYSUS D. J. Owens RHIWLAS
01248 361044 a 07771 634195

BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER EICH HOLL ANGHENION TEITHIO - TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATI.
Bysus Gwyrdd Rhiwlas
GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

Llandygái

Iona Wyn Jones, Dyma Fo, 16 Pentref, Llandygái, Bangor LL57 4HU
☎ 01248 354280
Eirlys Edwards, Sŵn y Coed, 23 Pentref Llandygái, Bangor LL57 4HU
☎ 01248 351633

Pen-blwydd
Dathlodd Beryl Hughes,Yr Elen ei phen-blwydd yn 80 ar yr 8ed o Awst. Daeth y teulu at ei gilydd i'r Lastra yn Amlwch i ddathlu.

Babi newydd
Llongyfarchiadau i Gwawr a Michael o Fferm Ffridd ar enedigaeth Elena ar y 10ed o Fedi. Mae Bedwyr wrth ei fodd hefo'i chwaer fach.

Symud Tŷ
Mae Bryn Jones wedi symud o Lanllechid i 6 Tan y Bryn. Yn wreiddiol o Fae Trearddur, mae'n gweithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru. Croeso i'n plith.

Gwellhad buan
Bu raid i Leslie Foulkes, Rhif 15 fynd i Ysbyty Gwynedd am brofion. Mae'r pentrefwyr i gyd yn meddwl amdanoch.

Sefydliad y Merched
Croesawodd Anne bawb i gyfarfod mis Medi ar y 27ain. Gan fod hwn yn gyfarfod agored daeth sawl gwestai atom i wrando ar y cyflwyniad.

Ar gais y siaradwraig, Mrs Vanessa Field, hi ddechreuodd y cyfarfod. Siarad a rhoi gwybodaeth oedd Mrs Field am gŵn sydd â'r gallu i ddarganfod afiechydon cyn bod neb arall yn ymwybodol ohonynt. Afiechydon fel cancr, Addisons, strôc ac eraill. Gwyddom fod gan gi synnwyr arogli arbennig iawn – llawer mwy craff na'r synhwyrau dynol. Rhyfeddwyd pawb gan y ffeithiau a phwysigrwydd, wrth gwrs, y diagnosis cynnar.

Diolchodd Dr Wendy iddi am noson arbennig iawn. Yna darllenodd Sheila y llythyr misol. Trafodwyd ei gynnwys gan nodi fod cyfarfod blynyddol y Sefydliad yn Ysgol Brynrefail ar 7 Hydref. Enillwyd y raffl gan Norma.

Dalier sylw mai yn y pnawniau y byddwn yn cyfarfod o hyn ymlaen. Bydd y cyfarfod nesaf ar 25 Hydref, pryd y bydd Mr Gareth Roberts yn dod atom i siarad – cyfarfod difyr arall!

Eglwys Sant Tegai, Llandygai
Stondin Elusen
Ym mis Medi rhoddodd Marchnad Ogwen gyfle i St Tegai godi arian er budd y Gronfa Atgyweirio ar ei stondin achos da arferol. Gweler rhestr enillwyr y raffl ar wefan Marchnad Ogwen. Gwnaethpwyd elw o dros £86. Diolch i gwsmeriaid a stondinwyr y farchnad am eu haelioni.

Darlith ar Hanes yr Eglwys a'r Pentref
Ar Fedi 26ain am 7 o'r gloch yn Neuadd Talgai cafwyd darlith yn Saesneg ar "Gloddiad Hanesyddol Cell Sant Tegai a'r Pentref Oes Efydd" gan Frances Lynch MBE MA FSA. Codwyd £225 at y Gronfa Atgyweirio. Roedd y neuadd yn llawn i wrando ar ddarlith raenus yn olrhain yr hanes o filoedd o flynyddoedd cyn Crist i fyny at y 10fed ganrif. Soniodd Frances hefyd am y posibilrwydd o fodolaeth beddau Cristnogol cynnar ar dir y stâd ddiwydiannol a'r tebygrwydd mai yn y fan yma oedd cell neu eglwys gyntaf Sant Tegai. Diolch yn fawr i Frances am ei pharodrwydd i rannu ei gwybodaeth.

Diolchgarwch Sant Tegai
Cafwyd gwasanaeth diolchgarwch unedig gydag eglwysi St Cross a Gelli ar ddydd Sul Hydref 1af. Daeth yr Hydref yn fyw yn yr eglwys gyda'r addurniadau lliwgar a rhoddion o fwydydd ar gyfer Banc Bwyd y Gadeirlan. Diolchwn i bawb am eu cyfraniadau ac wrth gwrs i Hazel, Nerys, Anne, Avril, Carol, Liz, Ann a Rhian am eu gwaith i baratoi yr eglwys.

Darlith Flynyddol Archesgob John Williams
Trydedd Ddarlith Goffa Archesgob John Williams:
"ARCHESGOB JOHN WILLIAMS A HARDDWCH SANCTEIDDRWYDD?"
Sgwrs yn Saesneg gan y Doctoriaid Clive Holmes a Felicity Heal
(y ddau o Brifysgol Rhydychen)
am 19:00 Nos Wener 20 Hydref 2017
Nos Wener Hydref 20fed am 7 o'r gloch yn Eglwys Sant Tegai Llandegai
Mynediad yn £5 a lluniaeth i ddilyn

Llongyfarchiadau
Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Gwenan Llewelyn Jones ar ei dyweddïad â Peter Atkinson o Tadworth, Surrey.

Amseroedd gwasanaethau Sant Tegai
Mae'r amseroedd yn wahanol i'r arferol y mis yma.

Hydref 8	Yr Offeren am 11.00 y.b. Diolchgarwch Bro Ogwen *Pregethwr Gwadd Yr Parchedig Mark Lawson*-Jones am 5.00y.p.
Hydref 15	Dim gwasanaeth yn yr eglwys. Gwasanaeth unedig yn Eglwys St Cross Talybont am 11.00 y.b.
Hydref 22	Boreol Weddi am 9.30 y.b. Yr Offeren yn y dull Taizé am 5.00 y.p.
Hydref 29	Yr Offeren am 11.00 y.b.

Bethesda

Fiona Cadwaladr Owen, Bryn Meurig Bach, Coed y Parc, Bethesda, LL57 4YW ☎ 601592

Joe Hughes, Awel y Nant,Ffordd Ffrydlas, Bethesda ☎ 601902

Diolch
Dymuna Dafydd Hughes, Rhes John, ddiolch i deulu, cyfeillion, a chymdogion am yr holl gardiau, rhoddion, a'r galwadau ffôn a dderbyniodd yn dilyn ei brofedigaeth ddiweddar o golli ei annwyl frawd, Bert. Diolch yn arbennig i'r Parch Ddr Huw John Hughes am arwain y gwasanaeth, a diolch i'r ymgymerwr, Gareth Williams, am y trefniadau trylwyr. Cyflwynwyd y rhoddion a gasglwyd at Ymchwil Cancr. Diolch yn fawr iawn i bawb.

Priodas
Llongyfarchwn Gareth a Beryl Llwyd (Edwards), Talgarnedd yn galonnog iawn ar achlysur eu priodas ar y 5ed o Hydref. Y dymuniadau gorau iddynt i'r dyfodol.

Llwyddiant
Llongyfarchiadau enfawr i'r Athro Paul Hughes, gynt o Ystad Coetmor ond yn awr yn byw ym Melton Mowbray ar gael ei benodi yn Bennaeth Ysgol Fusnes *Castle Business School* sydd yn rhan o Brifysgol De Montfort, Caerlŷr.

Mewn llai na blwyddyn o ymuno â'r Brifysgol, mae Paul wedi llwyddo i ddangos ei ddawn a'i botensial i'w benaethiaid ac roeddent yn awyddus i'w wobrwyo am ei waith caled.

Mae Dennis a Janet mor falch ohono ef a'i efaill Mathew sydd hefyd yn Athro ym Mhrifysgol Loughborough.

Clywir y ddau ohonynt yn aml ar Radio Cymro yn trafod y materion busnes sydd yn y newyddion ar y pryd. Da iawn chdi Paul a phob hwyl yn dy yrfa newydd!

Cydymdeimlo
Drwg clywed am farwolaeth Mrs Marjorie Jones, sef gweddw'r Parchedig Ganon Robert Dwyfor Jones a fu'n gwasanaethu ym Methesda yn y chwedegau. Cydymdeimlwn â'r plant Ann, Margaret a Gwilym yn eu profedigaeth.

Diolch
Dymuna Mrs Norma Griffiths, 46 Abercaseg, ddiolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd tra bu yn derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd, ac wedi iddi ddod adref.
Diolch o galon i bawb!

Ysbyty
Eto yn ystod y mis bu sawl un yn yr ysbyty yn derbyn triniaeth, ac rydym yn anfon ein cofion atynt i gyd. Yn eu plith roedd y Parch. John Owen, Plas Ogwen; Mrs. Muriel Williams, Garneddwen; Mr. Frank Thomas, Glanogwen; Mr. Morgan Owen, Ffordd Pant; Mrs. Norma Griffiths, Abercaseg; Mrs. Gwen Griffith, Ffordd Ffrydlas.

Damwain
Cael damwain i'w law tra wrth ei waith fu hanes Gareth Jones, Bryn Caseg. Bu raid iddo fynd i ysbyty yn Lerpwl i dderbyn triniaeth frys. Da deall dy fod gartref erbyn hyn.

Penblwyddi Arbennig
Ar 8 Hydref bu Mrs. Gwenda Jones, 14 Glanffrydlas yn dathlu ei phen-blwydd yn 80 mlwydd oed. Pen-blwydd hapus iawn Gwenda, a gobeithio eich bod yn teimlo'n well y dyddiau hyn.

Ac yna ar 26 Hydref bydd Neville Hughes, 14 Ffordd Pant, yn dathlu ei ben-blwydd yn 80 mlwydd oed. Pen-blwydd hapus iawn i ti Nev, a diolch i ti am dy holl waith yn y dyffryn.

Pen-cogydd o'r Safon Uchaf
Yn rhifyn Hydref y llynedd o Lais Ogwan cyhoeddwyd erthygl am Hywel Llyr Griffith, mab Iorwerth a Marian Griffith, a oedd wedi ei benodi yn Ben-cogydd ar dŷ bwyta newydd ym Mae Oxwich, Penrhyn Gŵyr. Ar 25 Medi eleni, bu Hywel yng Ngwesty'r Grosvenor House yn Llundain i dderbyn gwobr am y 'Tŷ Bwyta Gorau yng Nghymru' gan AA Hospitality, sef un o brif wobrwyon y diwydiant arlwyo ym Mhrydain. Llongyfarchwn Hywel ar ei lwyddiant arbennig a dymuno'r dda iddo yn y dyfodol.

Cyflwyno Elw'r Noson Garlleg
Cynhaliwyd Cystadleuaeth Garlleg Moriarty Thomas ar 19 Awst yn y Douglas Arms. Gwobr yr enillwyr yw dewis elusen lleol i dderbyn yr elw, a Ward Alaw yn Ysbyty Gwynedd oedd dewis Malcolm Creasey a Maggie Adam, ein buddugwyr. Sister Laura Edge dderbyniodd y rhodd ar ran y ward. £425 oedd y cyfanswm, a diolchwn o galon i bawb gymerodd ran, ac yn enwedig Jon Greenough o Greenough Roofing, sydd wedi cynnal y gystadleuaeth o'r dechrau, ac i Mark Gray o Pysgod Mark a ymunodd fel hyrwyddwr eleni. Diolch yn fawr hefyd i Andrew Carson, Northern Welsh Quarries am noddi'r gystadleuaeth.

Cydymdeimlo
Anfonwn ein cydymdeimlad at deulu'r diweddar Mr Ian Wynne Roberts, Ciltrefnus, a fu farw'n sydyn ar ddydd Sul, 27 Awst.

Cydymdeimlwn hefyd â Rhiannon a'r teulu, Ogwenna a'r teulu, ac Anona Wyn a'r

Llwybr Troed ar hyd Lôn Newydd Coetmor

Cywiriad
Yn ein herthygl ar y llwybr troed newydd ar Lôn Newydd Coetmor yn rhifyn Medi o'r Llais, bu inni nodi fod y Cynghorydd Dafydd Meurig wedi bod yn ymdrechu ers blynyddoedd i gael llwybr troed ar y ffordd hon. Rhaid inni bwysleisio mai camddealltwriaeth oedd yn gyfrifol am hyn, ac mai'r aelod lleol dros ward Ogwen am flynyddoedd, y cyn- Gynghorydd Ann Williams, fu'n brwydro'n galed i gael y llwybr troed ar Lôn Newydd Coetmor, a hi a sicrhaodd y tir gan Stad Penrhyn, ynghyd â chyflwyno'r holl resymau i gefnogi'r cais. Hoffem ymddiheuro i Ann am y camgymeriad hwn, a diolch iddi am ei holl waith caled dros y ward drwy'r blynyddoedd.

teulu, yn eu profedigaeth o golli eu chwaer, Mair Martin, yn Llanfairfechan ar 16 Medi.

Marw

Mr Elfed Evans

Yng Nghartref Cerrig yr Afon ar 8 Medi, bu farw Mr Elfed Evans, Hen Barc, Bethesda, yn 85 mlwydd oed. Roedd yn fab i'r diweddar Mr a Mrs Herbert Evans, ac yn gefnder a chyfaill i lawer. Cynhaliwyd ei angladd yn Amlosgfa Bangor ar fore Gwener, 15 Medi gyda'r Parch. Dafydd Coetmor Williams yn gwasanaethu. Cyflwynwyd teyrnged i Elfed gan Mr Derfel Roberts. Cydymdeimlwn â chwi fel teulu.

Mr Nefydd Davies

Ar ddydd Sul, 24 Medi, yn dawel yn ei gartref, 6 Tan y Gaer, bu farw Mr Nefydd Davies yn 82 mlwydd oed. Priod annwyl Mrs Delia Davies, tad caredig i Sandra, Ken. Sheryl, Sharon, Rebecca a'r diweddar Neil. Taid a hen daid hoffus a brawd a brawd yng nghyfraith.

Bu'r angladd yng Nghapel Carmel a mynwent Coetmor ddydd Gwener, 29 Medi, dan arweiniad ein gweinidog, y Parch. John Pritchard, gyda Mrs Helen Williams wrth yr organ. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch chi, Mrs Davies, a'r teulu i gyd yn eich profedigaeth.

Glenys Owena Owen

Yn Ysbyty Gwynedd ar 23 Medi, bu farw Glenys Owena Owen, Bron Bethel yn 73 mlwydd oed. Merch y diweddar Mr a Mrs John Owen Jones, 36 Maes Coetmor, a chwaer a chwaer yng nghyfraith i Bernard a Buddug, Penrhosgarnedd, Bangor.

Cynhaliwyd ei hangladd yng Nghapel Carmel a mynwent Coetmor brynhawn Mawrth, 3 Hydref. Yn gwasanaethu roedd y Parch. Olaf Davies, y Parch. Ddr Huw John Hughes, y Parch. John Gwilym Jones a'r Parch. Dafydd Coetmor Williams gyda Mrs Helen Williams wrth yr organ. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch chi, Bernard a Buddug.

Gorffwysfan

Ar ddydd Mercher, 13 Medi, aeth criw o'r aelodau a chyfeillion ar wibdaith i'r Trallwng. Galw yn gyntaf i gael coffi yn "Morton Park" cyn mynd ymlaen i'r Trallwng ac ar y trên bach i Lanfair Caereinion, ac yna i Ddolgellau. Diolchwyd am y trefniadau gan y Cadeirydd, Mr. Elfed Bullock.

Gwibdaith nesaf ar ddydd Mawrth, 21 Tachwedd, i Warrington. Enwau i Gorffwysfan os gwelwch yn dda.

Cinio Nadolig ar ddydd Gwener, 8 Rhagfyr, yn Neuadd Ogwen am 12.30yp.

Bore Coffi ar Sadwrn, 11 Tachwedd yng Ngefnfaes am 10 o'r gloch. Byddwn yn ddiolchgar am help, nwyddau a gwobrau raffl os gwelwch yn dda.

Llwyddiant yn Uganda

Mae gyrfa hogyn o Ddyffryn Ogwen yn mynd o nerth i nerth. Mae Jason Lewis, mab Glenys Lewis, 14 Abercaseg, wedi ei ddyrchafu i swydd prif arolygwr yr Independent School Inspectorate yn Uganda yn ddiweddar. Daw hyn o dan adain COBIS sef Council of British International Schools. Llongyfarchiadau mawr i ti Jason.



Llyfrgell Bethesda

Llongyfarchiadau i'r plant wnaeth gwblhau y Sialens Ddarllen yn y Llyfrgell dros wyliau'r haf - 36 allan o 66. Da iawn chi.

Yr Eglwys Unedig

Bu mis Medi'n un prysur iawn yn yr Eglwys. Mae'r gweithgareddau wedi dechrau ar ôl gwyliau'r haf. Mae plant yr Ysgol Sul yn brysur iawn yn ymarfer ar gyfer eu Gwasanaeth Diolchgarwch.

Daeth Anna Jane Evans atom fore Sul y lansiwyd Corwynt Cariad i godi arian tuag at Ynysoedd y Philipinos. Cafwyd sgwrs gyda'r plant a gwasanaeth wedyn gyda'r plant a'r oedolion yn gwneud gweithgareddau. Cafwyd casgliad anrhydeddus iawn tuag at yr apêl, a daeth nifer dda â'r arian oeddynt wedi ei gasglu hefyd.

Cafwyd cinio ysgafn ar gyfer pawb wedi ei baratoi gan y chwiorydd. Diolchwyd i bawb gan Alwenna. Mae'r wên ar wynwebau'r plant yn dweud eu bod wrth eu bodd yn yr Ysgol Sul.

Jean oedd yn gyfrifol am drefnu'r Cyfarfod Gweddi, gyda Joe a Mair yn ei chynorthwyo. Diolch iddynt.

Bu'r Parch. John Owen yn yr ysbyty a Mrs Muriel Williams, ac mae'r ddau adref erbyn hyn. Cofion cynnes atynt.

Bu'r Clwb Celf yn brysur gyda'u gweithfareddau hwy, ac mae'r baned fore Iau yn mynd rhagddi'n dda.

Bu cyfarfod o'r Henaduriaeth yma hefyd., gyda dau gyfarfod 3pm a 7pm. Cafwyd te rhwng y ddau gyfarfod, wedi ei ddarparu gan y chwiorydd. Diolch yn fawr iddynt am eu hymroddiad bob amser. Roedd canmoliaeth mawr am y te hefyd.

Yng nghyfarfod y nos, ordeiniwyd pedwar blaenor newydd ac un wedi triosglwyddo o eglwys arall. Llywyddwyd gan Miss Karen Owen. Hefyd rhoddwyd tystysgrif I Mr Maldwyn Thomas am ei wasanaeth fel blaenor am 40 o flynyddoedd. Minnie oedd wrth yr organ yn y ddau gyfarfod, a diolch iddi.

Mi fydd y Gymdeithas yn ail-ddechrau nos Iau, 19 Hydref ac wedyn yr ail nos Iau yn y mis. Croeso i bawb atom. Braf yw gweld Eurwen Morris yn gwella ar ôl damwain ger ei chartref. Rydym yn anfon ein cofion at bawb sy'n methu dod i'r oedfaon hefyd ac yn eu colli yn fawr.

Gwnaed elw anrhydeddus o £300 yn y Bore Coffi.

Y Cyhoeddiadau

Hydref

22 Mr Gwilym Williams 10am
Y Parch. Ddr Huw John Hughes 5pm

29 Y Parch. Cledwyn Williams

Tachwedd

5 Canon Idris Thomas 5pm

12 Cymorth Cristnogol 10am
Y Parch. Ddr Elwyn Richards 5pm

Diolchwn i Sioned am fod mor barod i'n gwasanaethu nifer o weithiau pan fydd angen.

Mae'r côr wedi ail-ddechrau ymarfer.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Helen Williams (gynt o 4 Erw Las) a Nick Creasey (gynt o 5 Cefn y Bryn), ar enedigaeth eu hefeilliaid ar 16/07/2017. Croeso mawr i'r byd, Awel Haf ac Arwen Eleri!

Mae Helen a Nick yn diolch i bawb am y cyfarchion a'r anrhegion lu.

山田派糸東流修交会空手道
KARATE-DO
Y FFORDD WAGLAW
KARATE SHUKOKAI BETHESDA
Yn Plas Ffrancon
Dwy wers gynta am ddim
- HUNAN AMDDIFFYN - HUNAN HYDER - FFITRWYDD - DISGYBLAETH - PARCH -
SHITORYU SHUKOKAI KARATE-DO TRADDODIADOL
* £35 y mis disgownt teuluol
* Dim Cytandeb, Dim Cyfeirnod Debyd
* Strwythur Graddio Traddodiadol
* Hyfforddwr 4ydd Dan ac Aelod o Dim Enillodd Gwpan y Byd 2007
* Pennaeth Soke Yamada Sensei 10fed Dan o Japan
NOS FAWRTH A NOS IAU
7 TAN 8 O'R GLOCH I BLANT HYD AT 12 OED
8-9 O'R GLOCH I BLANT DROS 13 OED AC OEDOLION
I SICRHAU EICH LLE YN Y CLWB:
FFÔN: 07595 361624
Ebost: shukokaiwales@icloud.com
Y WE: www.shukokai-wales.com
hoffi ni ar facebook
facebook.com/shukokainorthwales

LLYTHYR

Annwyl Olygydd,
Gair byr i ddweud cymaint o bleser a gefais wrth ddarllen erthygl Wyn Thomas yn rhifyn mis Medi, ac yn arbennig felly gan fod fy nhad i, John (Jack) Griffith, hefyd wedi bod yn aelod o Gôr y Penrhyn yn y 40au a'r 50au. Rydw i hefyd, fel Wyn, yn cofio bws y côr yn cyrraedd Bethesda ar ôl buddugoliaeth yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Mae'n ymddangos bod gan dad lais bas go dda, ac roedd o'n canu unawdau i'r côr. Fe'i cofiaf yn dda'n canu rhai o'r unawdau hynny yn y tŷ cyn mynd i ymarfer y côr, ac yn arbennig 'Ol' Man River', 'The Silver Trumpet' ac 'Asleep in the Deep'. Mae gen i gopïau o rai darnau y byddai'r côr wedi eu canu bryd hynny, megis 'Crossing the Plain', 'Old Father Thames', 'Pob Peth Ready Made', 'Bugail Hafod y Cwm' ac 'Absent'. Fe fu dad hefyd yn canu gyda'r Kentucky Minstrels, ac mae gen i gopi o un gân yma - 'Carry me back to Green Pastures'.

Yn anffodus does gen i'r un cofnod o'i lais yn canu dim byd.

Rydw i'n atodi dau lun. Mae'r cyntaf yn amlwg yn llun o'r côr yn syth ar ôl ennill yn yr Eisteddfod Genedlaethol - gweler yr 'Entrance 10' yn y cefndir. Ai eisteddfod Bae Colwyn, tybed? Fy nhad yw'r ail o'r dde yn y drydedd res.

Does gen i ddim syniad beth yw'r ail lun. A yw'n gôr lleol i Ddyffryn Ogwen? Efallai y gall rhywun egluro pwy sydd yma. Y tro yma mae dad yn y rhes flaen - yr ail o'r chwith.

Byddaf yn edrych ymlaen rŵan i weld darllenwyr eraill y 'Llais' gyda'u hatgofion nhw.

John Ffrancon, Abergele.

Sesiynau Siarad i Ddysgwyr

11.00 -12.00, Ail Ddydd Sadwrn bob mis ym Marchnad Ogwen
11.00 -12.00 , 4ydd Dydd Sadwrn bob mis yng Nghaffi Fitzpatrick's

Am fwy o wybodaeth neu i wirfoddoli yn y sesiynau siarad, cysylltwch â Meleri ar 01248 602131

JR SGAFFALDIAU Cyf. JR SCAFFOLDING Ltd.
YR IARD, FFORDD STESION, BETHESDA, GWYNEDD LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk
Ffôn/Ffacs:
01248 601754
07770 568743 (symudol)
CITB

Contractwyr Trydanol
Jones & Whitehead Cyf
Swyddfa Gofrestredig
Penrala, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU
Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982
E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk
constructionline NICEIC CONTRACTWYR CYMEREDIGOL ECA CHAS

GWASANAETH GLANHAU HUGHES
5 Pant Caerhun, Bangor, LL57 4DS (Y cwmni glanhau tu allan cyflawn)
Glanhau ffenestri: Golchi landeri, facsias a soffits.
Gwagio landeri gyda Sky Vacs a CCTV
Golchi 'meddal' – patios,"decking" a llwybrau
Golchi toeau ystafelloedd gwydr
Gofynnwch am Nicky ar 01248 355908 neu 07999 376250
pamela-stwnch@hotmail.co.uk

Dilynwch ni ar trydar
@Llais_Ogwan

Pentir

Eglwys St. Cedol, Pentir

Clwb 100 Mis Gorffennaf 2017

1af	Rhif 5	James Frith, Sling
2ail	Rhif 9	Beryl Williams, Bethesda
3ydd	Rhif 45	Myra Jones, Waun Pentir

Clwb 100 Mis Awst 2017

1af	Rhif 43	Ann Illsley, Pentir
2ail	Rhif 37	Ian Russell, Llandygái
3ydd	Rhif 6	Lyndon Miles, Pentir

Clwb 100 Mis Medi 2017

1af	Rhif 35	Margaret Williams, Rhiwen
2ail	Rhif 5	James Frith, Sling
3ydd	Rhif 38	Huw Redvers-Jones, Sling

Diolchgarwch

Fore Sul, 1 Hydref, cynhaliwyd gwasanaeth o ddiolch i ddathlu'r Cynhaeaf dan ofalaeth Y Parchedig Christina McCrea. Roedd yr eglwys wedi ei hardduno gydag amrywiaeth o flodau, ffrwythau a llysiau. Danfonwyd y ffrwythau a'r llysiau i hostel Y Santes Fair ym Mangor ar gyfer y digartref.

Bore Coffi

Bydd Eglwys St. Cedol yn cynnal Bore Coffi yng Nghanolfan Cefnfaes fore Sadwrn 28 Hydref rhwng 10yb a 12yb.

Ffair Nadolig

Bydd ein Ffair Nadolig eleni brynhawn Sadwrn 25 Tachwedd am 1.30yh yn y Ganolfan, Glasinfryn. Bydd amrywiol stondinau a lluniaeth. Croeso cynnes i bawb.

Gwasanaethau'r Sul

Mae'r gwasanaethu am 9.45yb

22.10.17	Boreol Weddi
29.10.17	Cymun Bendigaid
5.11.17	Cymun Bendigaid
12.11.17	Gwasanaeth Coffa – Boreol Weddi
19.11.17	Cymun Bendigaid
25.11.17	Boreol Weddi

Mae croeso i chwi ymuno â ni.

Ysgol Abercaseg

Plant Meithrin

Mae'n braf croesawu plant Dosbarth Meithrin i'r ysgol ac ambell blentyn arall sydd wedi cychwyn hefyd. Gobeithio fod plant blwyddyn 2 y llynedd wedi ymgartrefu ym Mhen y Bryn, a'u bod yn ceisio eu gorau glas.

Grwpiau

Mae pob Grŵp – Sgwad Syniadau, Ffrindiau'r Byd, Bysedd Gwyrdd, Ffrindiau Ffitrwydd a Dreigiau Caseg – wedi ethol aelodau newydd. Mae Dreigiau Caseg eisoes wedi bod yn brysur yn annog holl blant yr ysgol i siarad Cymraeg tra'n chwarae ar yr iard. Bydd pob grŵp yn ei dro yn cynnal prynhawn o weithgareddau i ddysgu gweddill yr ysgol am eu gwaith.

Newyddion 9

Daeth criw teledu Newyddion 9 i'r ysgol i ffilmio Stephen Jones o gwmni Anelu yn sôn am ŵyl fynydda Bethesda. Yn ogystal â Stephen daeth Llywarch a Callum, syrffiwr a dringwr i sôn am eu hanturiaethau. Dangosodd Callum – sydd o Fethesda – luniau o'i hun yn dringo led led y byd. Cafodd y plant gyfle i edrych ar offer dringo a syrffio a'r gobaith yw y bydd hyn yn eu sbarduno i fwynhau cyfleusterau awyr agored lleol.

Ysgol Goedwig

Bu rhai o blant yr ysgol ym Mharc Meurig yn dysgu sut i barchu'r amgylchedd. Cawsant gyfle i gynnau tân yn ddiogel a mwynhau llond bol o farshmallows wedi'u tostio.

Clwb Chwaraeon yr Urdd

Mae'r clwb chwaraeon wedi ail ddechrau ac eleni mae plant dosbarth derbyn yn cael cyfle i ymuno'n yr hwyl.

Clwb Coginio

Mae plant Blwyddyn 1 a 2 yn dysgu cogionio bwydydd iach yn y clwb ar ôl ysgol. Yn ogystal â hyn, mae'r clwb yn gyfle i ddysgu am bwysigrwydd prynu cynnyrch Masnech Deg. Yn ystod sesiwn olaf y clwb caiff y rhieni ymuno i flasu'r bwydydd.

C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu

Bethesda 01248 600045
Caernarfon 01286 676070
Llangefni 01248 751677

Cludiant am ddim yn lleol
Stoc helaeth ac amrywiol
Staff cyfeillgar a phroffesiynol
Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y

Mynytho 01758 730768
Llanrwst 01492 640794
Siop yn Llanrwst 01492 641798

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni a'r Siop

Sefydliad y Merched Carneddi

Ar Hydref 5ed cynhaliwyd ein hail gyfarfod ar ôl gwyliau'r haf. Estynnodd ein llywydd groeso cynnes i'r aelodau ar noson eithaf braf ond ychydig yn oer!! Dyma fydd y tywydd o hyn ymlaen fel bydd y gaeaf yn mynd yn ei flaen .

Dwy o'r merched oedd yn ymddiheuro, sef Gwen Davies a Margaret Williams, ac mae ein cofion yn mynd atynt. Darllenwyd cofnodion Medi gan Gwyneth Morris, a'r llythyr misol a'i amrywiol faterion gan ein llywydd.

Atgoffodd yr aelodau am gyfarfod yr Hydref ar y 7fed yn Ysgol Brynrefail, a hefyd am y Sioe Ffasiynau gan Grŵp Eryri yng Nghlwb Cymdeithasol Llanberis ar Hydref 9fed.

Ein gwraig wadd am y noson oedd Siân Davies o Fethel â'i diddordeb o dynnu lluniau. I'w helpu i arddangos y lluniau yr oedd ffrind iddi o Glwb Camera Bethesda wedi ymuno gyda hi, sef Emyr Roberts. Cawsom wledd o bob math o luniau adar, a gwiwerod coch, sydd yn brin iawn erbyn hyn . Yr oedd ganddi rai lluniau anifeiliaid a dynnwyd pan ar ei gwyliau yng Nghymru, Lloegr a thramor, yn cynnwys eliffantod a llewod pan aeth ar saffari i Kenya. Cawsom noson ddifyr iawn gan Siân, nid yn unig wrth edrych ar ei lluniau gwych, ond yn ogystal, wrth iddi ddisgrifio sut y daeth i dynnu'r lluniau. Mae hi'n amlwg yn dalentog iawn y tu ôl i gamera ac wedi ennill cystadlaethau yn arddangos ei gwaith.

Diolchwyd i Siân gan Ceinwen Hughes ac i'r pwyllgor am y baned. Enillydd y wobr lwcus oedd Eirwen Williams yn rhoddedig gan Ceinwen.

Cwmni Drama'r Llechen Las

Ar ôl blwyddyn hwyliog gyda Bali Wali Honco a Cabaretta Marietta, mae Cwmni Drama'r Llechen Las wedi dechrau ymarfer ar gyfer panto newydd arall, fydd i'w weld yn Neuadd Ogwen ar 19-20 Ionawr. Mae'r criw yn cyfarfod bob nos Iau yn Neuadd Ogwen, rhwng 7.30 a 9.00 ac mae croeso i aelodau newydd ymuno â nhw. Mae tâl aelodaeth yn £10 y tymor (oedolion), £8 (pensiynwyr, myfyrwyr a'r di-waith) a £5 (14-18 oed). Mae'r cwmni'n chwilio'n arbennig am dechnegwyr (goleuo a sain), ond bydd croeso i chi helpu efo'r gwisgoedd, set, props, cyhoeddusrwydd neu gefn llwyfan. Er bod y prif rannau wedi eu castio bellach, dydi hi ddim yn rhy hwyr i chi ymuno er mwyn cael rhan ar y llwyfan chwaith, ond brysiwch! Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r Ysgrifennydd, Marian Griffith, ar (07795) 025610 neu mariangriffith@hotmail.co.uk. Neu galwch heibio i Neuadd Ogwen ar nos Iau.

Y Cyfarfod Blynyddol
Cynhelir Cyfarfod Blynyddol Cwmni Drama'r Llechen Las yn Neuadd Ogwen nos Iau, 26 Hydref am 8.00pm. Mynediad am ddim. Croeso cynnes i bawb.
Dewch i glywed hanes blwyddyn gyntaf y cwmni ers ei ailsefydlu, ac i ddweud sut buasech chi'n hoffi ei weld yn datblygu.

Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Ar ddechrau mis Medi cynhaliwyd cyfarfod deufisol y gangen yng Nghanolfan Cefnfaes i ddderbyn adroddiadau am Ewrop (e.e. taliadau crwydro ffônau symudol yn cael eu dileu), Llywodraeth Cymru (e.e. deunaw o ymgynghoriadau cyhoeddus yn dal i fod yn agored), Cyngor Gwynedd (e.e. yr ymgynghoriad am gyfraniadau ariannol gan rieni at yr awr brecwast mewn ysgolion) a'r cynghorau cymunedol (e.e. Cyngor Bethesda'n cyfarfod efo'r heddlu).

Yna trafodwyd y papur ymgynghorol am arweinydd a dirprwy-arweinydd Plaid Lafur Cymru.

Yng nghanol y mis cynhaliwyd cyfarfod misol Plaid Lafur Arfon yng Nghaernarfon i baratoi am gynhadledd Prydain y Blaid Lafur, i ddechrau'r broses o ddewis yr ymgeisydd seneddol nesaf ac yn y blaen.

Yna tua diwedd y mis cynhaliwyd taith gerdded flynyddol y gangen yn Nant Ffrancon, gan godi swm parchus o arian at dreuliau'r gangen.

Cynhelir cyfarfod enwebu'r gangen ar Hydref 25 a'r cyfarfod deufisol nesaf ar Dachwedd yr 8fed, y ddau am 7:30 yng Nghanolfan Cefnfaes.

Nyth Y Gân

Y Ferch a'r Fam

Daeth deigryn i lygaid y fechan
A chynnwrf a gafwyd 'run pryd
Trwy ganfod fod rhagor o deulu
Yn gorwedd mewn basged fach glyd.

Mor falch oedd drwy sylwi yn fanwl
Fod pedwar o gŵn bach ar gael
Yn symud o gwmpas â'i gilydd
Wrth eu mam a edrychai mor wael.

Arhosodd am hir efo'r rheini
Fu'n prowla o hyd ac yn gwau
A gweiddi mor aml a wnaethant
A llygaid pob un oedd ar gau.

Y bore canlynol fel ddeffrodd
'Rôl noson fu'n hynod o hir,
A brysiodd i lawr at y gegin
A'r cyfan edrychai mor glir.

Ac felly y bu am dair wythnos,
Y deillion ar dethi y fam
Yn sugno y maeth ddaeth ohonynt
Heb orfod wynebu'r un cam.

Mor braf ydoedd gweld newidiadau
Gymerai eu lle 'mysg y cŵn,
A'r elfen o dyfu i fyny
Oedd chwarae yn lle cadw sŵn.

Fe redodd y dagrau un diwrnod
Yn gyflym hyd ruddiau y ferch
Wrth weld y cŵn bach yn ymadael
Ar ôl iddi eu magu â serch.

* * *

Yr Eryr Aur ym Mongolia

Eryr yr uchelderau, ei aelwyd
A welir ar greigiau,
Ac o nyth ei gywion iau
Caiff gŵr y siŵr drysorau.

Yn oesol ym Mongolia, yr eryr
A yrrir i hela;
I gipio'i bris o gopa
Ar ei daith yn heliwr da.

Cyhyrog yw'r marchogion, hen dalent
Ddaeth trwy deulu'r dewrion,
Y rhai yn siŵr a garai sôn
Am bur antur helyntion.

Ymlynnu am wyth mlynedd hyd gadarn
A di-goedwig dirwedd,
Yn abl eu disgybledd,
Am yn hir, hela mewn hedd.

Dafydd Morris

Y Gerlan

Ann a Dafydd Fôn Williams,
14/4 Stryd y Ffynnon, Gerlan ☎ 601583

Swydd newydd
Rydym yn llongyfarch Paul Williams, Stryd Goronwy, ar ei benodiad yn athro yn Ysgol y Faenol, Penrhosgarnedd. Rydym i gyd yn dymuno'r gorau i ti yn dy swydd gyntaf fel athro, Paul. Pob hwyl ar y gwaith.

Dathlu'r 50 oed
Y mis diwethaf dathlodd Mark Briggs, Stryd y Ffynnon, benblwydd arbennig, sef y 50 oed. Llongyfarchiadau mawr iti ar yr achlysur, Mark. Gobeithiwn iti fwynhau'r dathlu.

Newid swydd
Llongyfarchiadau i Non Thomas, Rallt Isaf, ar gael swydd fel Cymhorthydd Arbenigol Nam Clyw yn gweithio ar draws ysgolion Gwynedd. Da iawn, Non, dymunwn y gorau i ti yn dy swydd newydd.

Llwyddiant arholiadol
Llongyfarchiadau i holl bobl ifanc yr ardal sydd wedi llwyddo yn eu gwahanol arholiadau yr haf hwn. Pob dymuniad da i chi i gyd, beth bynnag yr ydych am ei wneud nesaf, a phob llwyddiant i bob un ohonoch.

Gwobrwyo
Rydym yn estyn ein llongyfarchiadau mawr i'r plant o'r Gerlan a dderbyniodd wobrau am eu gwaith a'u hymdrech arbennig yn Noson Wobrwyo Ysgol Dyffryn Ogwen yn ddiweddar. Da iawn chi i gyd!

Gadael y pentref
Mae Mathew, Bethan a'r plant wedi symud o Ffordd Gerlan i'w cartref newydd yng Nglanogwen. Pob dymuniad da i chi fel teulu.

Y Caban
Cynhelir Cyfarfod Blynyddol y Caban yn y Caban Nos Fercher, Tachwedd 29 am 7.00 yr hwyr. Croeso cynnes i bawb!

Ysgol y Gerlan ddechrau'r 1930au
Pwy ydych chi eu hadnabod?
O'r rhes gefn i lawr: Miss Thomas, Tom, Eric, ? , Edgar, Leslie, Gordon, Emrys.
Greta, Betty, Eirlys, Nesta, May, Myfanwy, Maggie, Betty Post.
Eric, Llew, Beryl, Myra Wyn, Betty, Goronwy, Hilda, Betty Cwlyn, Eluned, Ffrancon, Catherine
Will, Ivor, Gwilym, Will Davies, Ivor (Blewyn), Gruffydd Wyn (Tangadlas).
Diolch am y llun a dderbyniwyd gan Evan Lloyd Hughes, sy'n byw yn awr ym Maesgeirchen, ond a gafodd ei fagu yn 27 Ffordd Gerlan.

Llun Chwarelwyr 1950

Yn rhifyn Medi o'r Llais ymddangosodd llun o chwarelwyr a dynnwyd rywbryd yn yr 1950au. Cysylltodd Mrs Glenys Roberts, 1 Hen Barc, gydag enwau rhai o'r chwarelwyr. Rhes flaen (o'r chwith): Ifan Elwyn Parry; ? ; Emrys Williams; Huw Davies; Weldon Hughes; Glyn Bullock. Rhes ôl (o'r chwith): ?; ?; mab Emrys Williams; ? ; Francis Proudley; ? ; ?; Glyn Griffith; ? ;

Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon:

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

williamshy@parliament.uk

Siân Gwenllian
Aelod Cynulliad Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch a'r swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
(01286) 672076

Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru

Ysgol Bodfeurig

Celtiaid Bodfeurig
Mae dosbarth Tryfan wrth eu boddau y tymor yma yn dysgu am y Celtiaid. I ddysgu mwy cawsom fynd ar ymweliad gwych i Ynys Môn. I ddechrau aethom i Oriel Môn ble cawsom gymryd rhan mewn gweithdy oedd yn ein dysgu am drysorau Celtaidd Llyn Cerrig Bach. Cawsom afael mewn arteffactau tebyg i'r rhai ddarganfuwyd yn y llyn – dyna ddiddorol oedd ceisio gweithio allan beth oeddynt! Ar ôl cinio aethom yn ôl ar y bws a theithio i Melin Llynnon ble roedd cyfle i ddysgu am gartrefi'r Celtiaid yn y tai crynion. Roedd yr ymweliad yn ysbrydoliaeth ar gyfer gwaith y thema ac rydym yn edrych mlaen i ddysgu mwy.

Diwrnod Ieithoedd Ewropeaidd
Bu dathlu mawr yn Ysgol Bodfeurig ar Fedi 29 eleni gyda phob dosbarth yn dewis iaith Ewropeaidd a dysgu mwy amdani. Cafodd plant o bob oedran y cyfle i ddysgu ychydig o gyfarchion a rhifau Ffrangeg, Eidaleg a Sbaeneg. Fyddai dathlu diwylliant ddim yn gyfan heb flasu bwyd, a phrofiad gwych oedd profi croissants, pizza a chorizo yn y prynhawn.

Pwysig hefyd oedd dod i ddeall am yr amrywiol diwylliannau o fewn rhai o'r wledydd. Dyma lun o Ddosbarth Tryfan yn dysgu am Gatalonia.

Sut beth oedd bod yn un o'r Rhufeiniaid?
Fel rhan o'u thema, Cafodd Dosbarth Ogwen gyfle i fynd i'r Dewa Roman Experience yn Gaer er mwyn dysgu am fywyd y Rhufeiniaid. Cafodd y dosbarth gyfle i ymweld â'r amffitheatr a chael eu hyfforddi yn filwyr Rhufeinig. Bu'r dosbarth hefyd yn dysgu am iechyd, hylendid a meddygaeth, bwyd a diod yn ogystal ag archaeoleg a gweld ateffactau Rhufeinig yn yr amgueddfa. Roedd yn ddiwrnod diddorol, pawb wedi dysgu llawer iawn ac wrth gwrs, pawb wedi mwynhau.

Cestyll a Dreigiau
Cestyll a dreigiau yw thema Dosbarth Idwal y tymor yma, felly dychmygwch y cyffro pan gawson nhw fynd ar y bws i Fiwmares i weld draig go iawn! Cafodd pawb amser da yn dysgu am adeiladu castell ac sut roeddent yn amddiffyn rhag gelynion cyn cael cwrdd â Dwynwen y Ddraig. Profiad gwerth chweil i ysbarduno llawer o waith crefft ac ysgrifennu yn y dosbarth.

Llais Ogwan

I hysbysebu yn **Llais Ogwan,**
Neville Hughes 600853
(nev_hughes@btinternet.com)

Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn?

DYDDIADUR BOREAU COFFI 2017

21 Hydref – Cefnfaes - Eisteddfod Dyffryn Ogwen.
28 Hydref – Cefnfaes – Eglwys Sant Cedol, Pentir.
04 Tachwedd – Cefnfaes – Neuadd Talgai.
11 Tachwedd – Cefnfaes - Gorffwysfan
25 Tachwedd – Neuadd Ogwen – Plaid Lafur
25 Tachwedd – Caffi Coed y Brenin - NSPCC

Pwysig
Os yn trefnu Bore Coffi yn ardal Bethesda, bydd y rhestr uchod yn gymorth i chi ddewis dyddiad gwag. Gallwch wedyn gynnwys eich dyddiad chi ar y rhestr hon. Bydd yn cael ei diweddaru ac yn ymddangos pob mis. Anfonwch y manylion at Neville Hughes (600853).

Marchnad Ogwen

Tachwedd 11eg
Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.00pm

Tachwedd 22ain
Neuadd Ogwen, 5.00pm - 8.00pm

Rhagfyr 9ed
Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.00pm

Bwydydd, Crefftau, Lleol

www.marchnadogwen.co.uk
Facebook

CHRIS GRIFFITHS
Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythyrau ac unedau gwydr wedi chwythu

18 Mill Lodge
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB

☎ 01248 713 369 neu 07813 455653

CANOLFAN CEFNFAES

GYRFA CHWIST
HYDREF 24 a 31
TACHWEDD 14 a 28
am 7:00 o'r gloch. Croeso i bawb

CANOLFAN CEFNFAES

BORE COFFI EISTEDDFOD DYFFRYN OGWEN
SADWRN 21 HYDREF
10.00 – 12.00

CANOLFAN CEFNFAES

BORE COFFI EGLWYS ST. CEDOL
SADWRN 28 HYDREF
10.00 – 12.00

CANOLFAN CEFNFAES

BORE COFFI NEUADD TALGAI
SADWRN 4 TACHWEDD
10.00 – 12.00

CANOLFAN CEFNFAES

BORE COFFI GORFFWYSFAN
SADWRN 11 TACHWEDD
10.00 – 12.00

Cadeiriau ar gael yn rhad ac am ddim

(hyd at 20 o gadeiriau plastig llwyd)
o Festri Bethlehem Talybont
Am ragor o wybodaeth cysylltwch â
Neville Hughes ar 600853.

CANOLFAN CEFNFAES

CYFARFOD BLYNYDDOL LLAIS OGWAN
NOS FERCHER, 15 TACHWEDD
AM 7.00 Y.H.
CROESO CYNNES I BAWB

Festri Carmel Llanllechid

Te Bach
Pnawn Llun, 23 Hydref
2.30 – 4.00
Croeso i bawb

Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen

Nos Lun 13 Tachwedd
am 7.00 yh
yn Festri Capel Jerusalem
Ann Parry Owen
Guto'r Glyn a Chochwillan
£1.50 wrth y drws neu am ddim i aelodau

Jamiau Cartra'

(at elusennau ac achosion lleol)

Angharad a Neville Hughes,
14 Ffordd Pant,
Bethesda, LL57 3PA
Ffôniwch: 01248 600853
neu galwch yn Siop Ogwen hefyd
Stondin ym Marchnad Ogwen
22 Tachwedd
5.00 – 8.00

Y CABAN

Cynhelir Cyfarfod Blynyddol y Caban yn y Caban
Nos Fercher, Tachwedd 29
am 7.00 yr hwyr.
Croeso cynnes i bawb!

Ysgol Dyffryn Ogwen

Blwyddyn 7
Cychwynnodd 105 disgybl ym mlwyddyn 7 eleni, y nifer mwyaf ers rhai blynyddoedd, sy'n dod a chyfanswm y disgyblion yn yr ysgol yn agos i 450. Rhagwelir y bydd yr ysgol yn parhau i dyfu dros y blynyddoedd nesaf. Daw'r disgyblion o holl ysgolion cynradd y dalgylch yn ogystal ag ambell ysgol arall gyfagos. Mae Ysgol Dyffryn Ogwen yn amlwg yn denu.

Staff Newydd
Pleser yw croesawu staff newydd i'r ysgol. Mae Mrs. Delyth Humphreys wedi cychwyn fel pennaeth Cerdd, Mrs. Catrin Williams yma yn dysgu nifer o wahanol bynciau a Ms. Sarah Ozanne yn dychwelyd i Ddyffryn Ogwen wedi cyfnodau mewn gwahanol ysgolion. Mae dau gyn-ddisgybl hefo ni fel Cymorthyddion Dosbarth sef Mr. Rhys Owen Jones a Miss Manon Hughes a'n Swyddog Data yw Mrs. Meryl Jones.
Pob dymuniad da i Mr Dylan Davies yn ei swydd newydd fel pennaeth yr ysgol.

Canlyniadau Arholiadau
Cafodd disgyblion chweched dosbarth yr ysgol gryn lwyddiant yn eu harholiadau eleni gyda nifer arbennig o dda o raddau A* ac A, cafodd pob myfyriwr gynnig lle ar y cyrsiau o'u dewis. Hoffem longyfarch pawb ohonynt. Fe ddisgleiriodd Lois Owen a Rhiannon Llwyd gyda 3 gradd A a 2 radd B, Luke Crowe gyda 3A ac 1B a Math Owen gyda 2A*, 2B ac 1C.

Lois Owen, Rhiannon Llwyd, Luke Crowe a Math Owen

Roedd canlyniadau gwych gyda nifer o sêr ymysg criw blwyddyn 11 hefyd. Cafodd Esme Crowe 9A* a 4A, Gethin Hughes 4A* a 7A, Hannah Morgan 3A* a 5A, Cadi Roberts 3A* a 9A. Llongyfarchiadau iddynt hwythau.

Canlyniadau blwyddyn 11 - Lowri Davies, Efa Glain Williams ac Esme Crowe

Cyfarfod Gwobrwyo 2017
Cynhaliwyd Cyfarfod Gwobrwyo blynyddol yr ysgol nos Fercher, Medi 13eg. Cafwyd cyfle i ddathlu llwyddiannau ein disgyblion a'n pobl ifanc yn academaidd, yn allgyrsiol ac o ran presenoldeb ac ymdrech gyda'u gwaith ysgol.
Y gwr gwadd eleni oedd Mr Alun Llwyd, cyn bennaeth yr ysgol wrth gwrs. Yr oedd yn braf iawn hefyd croesawu rhai o benaethiaid ysgolion cynradd y dalgylch i rannu llwyddiannau eu cyn ddisgyblion. Mae'r ysgol yn rhoi llawer o bwyslais y dyddiau yma ar bresenoldeb da, gan fod llawer o dystiolaeth fod disgyblion gyda phresenoldeb da yn llwyddo'n llawer gwell na'r rhai sy'n colli dyddiau yma ac acw – ac nid yw hynny'n syndod wrth gwrs. Yr oedd yn braf iawn gwobrwyo 30 disgybl am bresenoldeb llawn o 100%.

Y pedwar disgybl a dderbyniodd wobrau am y perfformiadau TGAU gorau eleni oedd Esme Crowe, Gethin Hughes, Hannah Morgan a Cadi Roberts. Enillwyr y gwobrau am y perfformiadau Lefel A gorau oedd Luke Crowe, Rhiannon Hughes, Rhiannon Llwyd, Lois Owen a Math Owen.
Rhannwyd Ysgoloriaeth Dafydd Orwig eleni rhwng Lois Owen a Math Owen. Mae'r ysgoloriaeth yn cael ei dyfarnu'n flynyddol i ddisgyblion sydd yn parhau gyda'u hastudiaethau drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn gwneud hynny ym Mhrifysgol Cymru. Aeth Ysgoloriaeth Cyngor Cymuned Bethesda i gofio am y Streic Fawr i Ceri Hulme a Iolo Llwyd. Cyflwynir y wobr yma i ddisgyblion sy'n bwriadu parhau gyda'u hastudiaethau ym myd celf neu mewn crefft arbennig, mae Ceri a Iolo wedi dechrau cyrsiau Celf a Dylunio ym Mangor bellach.
Y disgyblion a dderbyniodd y gwobrau am y perfformiad gorau ym mlwyddyn 7 oedd Mari Bullock, Eleri Devereux, Cerys Elen, Ioan Emptage, Gwydion Evans, Elin Lewis, Swyn Owen, Luke Pipe a Sam Thomas.
Diolch i Gyngor Cymuned Llandygai am gynnig gwobrau i ddau ddisgybl o bob blwyddyn a ddangosodd ymdrech arbennig ymhob agwedd o'u gwaith ysgol. Enillwyr eleni oedd Sioned Davies, Cushla Luxton, Morgan Griffiths, Lily Ward, Cian Ashton, Erin George, Penny Carr, Ryan Pople.
Cyflwynwyd Gwobr Goffa Charlotte Speddy eleni i Dafydd Roberts sydd bellach ym mlwyddyn 10. Yn ychwanegol i'w waith gofalu, mae Dafydd wedi llwyddo i gwblhau nifer anhygoel o oriau yn gwirfoddoli yn Ysbyty Gwynedd a threfnu nifer o ddigwyddiadau elusennol yma ym Methesda.

Gwobr arbennig bob blwyddyn yw Tarian Carwyn Thomas a gyflwynir gan ei rieni, Mr a Mrs Emlyn Thomas, er cof amdano. Mae'r darian yn cael ei chyflwyno i ddisgybl sydd yn gwneud cyfraniad arbennig ym maes chwaraeon, a'r enillydd eleni oedd Iago Davies, pencampwr amryddawn, yn hwylio i safon uchel ac ar hyn o bryd yn ymarfer gyda charfan rygbi saith bob ochr Cymru.

Manon Hughes oedd enillydd gwobr goffa Frank Rhys Jones, sef y wobr a gyflwynir gan y Prifathro i ddisgybl sydd wedi gwneud cyfraniad arbennig i fywyd yr ysgol. Cyflwynwyd gwobr newydd eleni i Elan Gilford, Hyfforddwr y Flwyddyn. Mae Elan yn treulio oriau ac oriau yn gwirfoddoli i hyfforddi disgyblion eraill, yma yn yr ysgol ac yn ei chartref ar Ynys Môn, a hynny er gwaethaf iddi golli ei chlyw ers yn fychan. Enillodd Elan wobr gwirfoddolwr y flwyddyn yng Ngwobrau Chwaraeon BBC Cymru llynedd. Gobeithio'n wir y bydd hi'n ysbrydoliaeth i eraill ddilyn ôl ei thraed.
Diolch i'r holl ddisgyblion am eu gwaith caled ac wrth gwrs i'r rhieni, staff a llywodraethwyr am eu cefnogaeth iddynt.

Disgyblion a dderbyniodd wobr am ymdrech arbennig gyda Mrs Mair Owen Pierce ar ran Cyngor Cymuned Llandygai

Ymweliad â'r Llyfrgell Genedlaethol
Cyn cau pen y mwdwl ar flwyddyn o waith caled ym mis Gorffennaf teithiodd blwyddyn 12 i Aberystwyth er mwyn treulio prynhawn yn y Llyfrgell Genedlaethol. Cafodd y criw eu tywys ar daith o gwmpas y llyfrgell yn ogystal â chael y cyfle i weld llawysgrifau Aneirin a Thaliesin. Roedd hwn yn brofiad arbennig iddynt cyn mynd ati i astudio gwaith y Cyfeirdd fel rhan o'u cwrs ym mlwyddyn 13. Diolch i griw blwyddyn 12 Ysgol Tryfan am eu cwmni ar y daith.

Sgwad Sgwennu Gwynedd - Llenorion o Fri!
Llongyfarchiadau mawr i bump o

lenorion dawnus ym mlwyddyn 7 am gael eu dewis i fod yn aelodau o Sgwad Sgwennu Gwynedd. Bydd Grace, Anest, Osian, Martha a Nel yn mynychu cyfres o weithdai yn ystod y flwyddyn er mwyn datblygu eu dawn. Yn ddiweddar treuliodd y pump ohonynt ddiwrnod yng nghanolfan ysgrifennu Tŷ Newydd. Edrychwn ymlaen yn arw at glywed eu hanes yn ystod y flwyddyn.

Grace Wynne, Anest Bryn, Osian Moore, Martha Jones a Nel Roberts

Prif Ddisgyblion
Prif ddisgyblion yr ysgol am y flwyddyn yw Owain Morgan a Sophie Williams, gyda Steffan Davies, Martha Evans, Gwenllian Owen, Ffion Roberts ac Elen Wyn yn ddirprwyon. Llongyfarchiadau i bob un ohonynt.

Bore Coffi
Penderfynais i ac aelodau o'r chweched dosbarth gynnal Bore Coffi yn y Neuadd y mis yma, er mwyn codi arian ar gyfer yr elusen Macmillan. Roedd llawer o athrawon a disgyblion wedi bod yn hael iawn yn dod a chacennau a bisgedi ar gyfer cael eu gwerthu. Yn y diwedd llwyddom ni i godi £90 ar gyfer yr achos. Hoffwn ni ddiolch i bawb a wnaeth gyfrannu ac rydym yn gobeithio cynnal mwy o ddigwyddiadau i godi arian yn ystod y flwyddyn nesaf!
Martha Evans

Cynrychioli Cymru
Llongyfarchiadau i Catherine Roberts blwyddyn 9 sydd wedi cael ei dewis i gynrychioli Cymru mewn cystadleuaeth nofio yn Sheffield ym mis Hydref. Pob lwc i ti Catherine.

Canlyniad pêl droed dan 13
Ysgol Dyffryn Ogwen 5 – 3 Friars, sgoriwyd 3 gôl gan Noa Hughes a 2 gan Iestyn Marlow. Da iawn chi!

Ysgol Rhiwlas

Wel am fis prysur yn Ysgol Rhiwlas, mae'r disgyblion newydd bellach wedi setlo lawr yn dda yn y dosbarth meithrin yn ogystal â›r newydd-ddyfodiaid ym mlwyddyn 2. Bu i ni ffarwelio â 5 o ddisgyblion dros y mis diwethaf - Tyler a Brooke i Ysgol Bro Llifon a Bethany, Milly a Josh i Ysgol Llangaffo - y pump yn symud tŷ. Ddymunwn yn dda iddynt yn eu hysgol newydd.

Rydym hefyd yn dymuno'n dda i Mrs Goosey sydd wedi derbyn secondiad Pennaeth Ysgol Talwrn yn Sir Fôn ac yn estyn croeso cynnes i Ceri Jones atom fel athrawes yn y Cyfnod Sylfaen - bu gyda ni ar ei hymarfer dysgu olaf a phrofodd ei hun yn athrawes dda iawn. Rydym hefyd yn estyn croeso i Gwenlli Haf sydd yn yr ysgol fel myfyrwraig o'r Brifysgol ym Mangor - dwi'n siŵr y byddwch yn hapus yn ein plith!

Penodwyd ein Cyngor Ysgol newydd, ein Cyngor Eco a'n Llysgenhadon efydd. Daeth Hannah i'r ysgol i wobrwyo Gruffudd a Iori gyda chrysau t a bag o nwyddau i'w helpu gyda'u gwaith.

Mae ein clybiau ar ôl ysgol yn boblogaidd gyda nifer o blant yn aros tan 5 i fwynhau'r gweithgareddau ychwanegol. Rydym yn ddiolchgar iawn i Ffion am wneud clwb chwaraeon yr Urdd ar nos Iau a Sharon am ddod i mewn i ddysgu'r plant i weu ar nos Lun, Mawrth a Mercher. Derbyniodd blwyddyn 5 a 6 wersi beicio gan Swyddogion Cyngor Gwynedd i wneud yn siŵr eu bod yn ddiogel ar y ffordd.

Mae'r Polytunnel bellach ar waith ac mae cnwd o letys a moron yn tyfu yn dda - gobeithio bydd ganddom gnwd da erbyn y Nadolig! Cofiwch ein bod yn rhedeg Coop ffrwythau, llysiau a salad sydd ar gael yn wythnosol i drigolion Rhiwlas am £3 yr un. Gallwch archebu erbyn dydd Mercher a bydd y bag yn yr ysgol bnawn Gwener.

Bu'r dosbarth Cyfnod Sylfaen ar ymweliad â TESCO ym Mangor yn sgîl astudio a dysgu am fwyta'n iach.

Llongyfarchiadau mawr i Osian Rowlands sydd yn gyn-ddisgybl o'r ysgol a bellach yn Ysgol Dyffryn Ogwen am gael ei dderbyn i'r Sgwad Sgwennu - mi fyddwn ni'n dilyn dy yrfa fel ysgrifennwr gyda diddordeb mawr. Llongyfarchiadau mawr hefyd i Yvonne Halstead sydd wedi derbyn statws CALU sef uwch-gymhorthydd gan GwE. Rydym hefyd yn hynod falch ohonat ti.

Plaid Cymru - Cangen Dyffryn Ogwen

Dyma'r hydref wedi dod a hithau unwaith eto yn dymor y gweithgareddau a'r cymdeithasu. Cynhaliwyd bore coffi hwyliog yng Nghanolfan y Cefnfaes ar y Sadwrn cyntaf o fis Hydref a daeth criw da at ei gilydd. Lle da am baned a sgwrs ydy boreau coffi! Llwyddwyd i wneud elw sylweddol ac rydym yn ddiolchgar iawn i bawb am eu cefnogaeth. Rydym hefyd yn edrych ymlaen at ein noson gymdeithasol yn y Clwb Criced a Bowlio yng nghwmni y Welsh Whisperer.

Yn ein pwyllgor diweddaraf dywedwyd pa mor braf oedd gwybod bod Lucinda wedi cychwyn ar ei swydd gyda Phartneriaeth Ogwen yn mynd o amgylch yr ardal gan dacluso a chodi sbwriel a gwylio am leoedd sydd angen ei sylw. Mae'n drawiadol iawn gyda gwasgod biws y bartneriaeth ac yn gaffaeliad i'r ardal.

Mae ein pedwar Cynghorydd Sir yn brysur iawn ac mae eu manylion ar gael yn y rhifyn hwn o'r Llais. Cynhaliodd Rheinallt Puw gymhorthfa lwyddiannus fis Medi.

Cynhelir ein Cynhadledd Flynyddol yn Galeri, Caernarfon ar 20fed a'r 21ain o Hydref a cheir cyfle i wrando ar Leanne Wood AC a Ben Lake AS ymysg nifer o siaradwyr gwadd eraill. Mae'n argoeli i fod yn Gynhadledd dda a diddorol.

Cofiwch gysylltu gyda'n cynghorwyr lleol ar y Cynghorau Cymuned neu ein Cynghorwyr Sir os oes rhywbeth yn eich poeni.

Darlith Edward Llwyd 2017

'Ynni, Gwaith a Chymhlethdod: Dehongliad o Saith Chwyldro Hanesyddol'

5.30 nos Iau, 9 Tachwedd 2017
Ystafell PL2, Pontio, Bangor
Darlithydd: Yr Athro Emeritws Gareth Wyn Jones

Rhiwlas

Iona Jones, 17 Bro Rhiwen, Rhiwlas
☎ 01248 355336

Te Bach
Cafwyd Te Bach yn y Neuadd wedi'i drefnu gan aelodau'r pwyllgor ar y Sadwrn cyntaf o Fedi. Roedd yr arian a godwyd yn mynd at elusen Gofal Canser y Fron. Diolch i'r rhai a drodd i mewn atom ac i'r rhai a gyfrannodd yn ariannol hefyd tuag at yr achos teilwng hwn. Cafwyd pnawn difyr a dipyn o sgwrsio ac fe gasglwyd swm sylweddol o arian. Diolch i'r pwyllgor am baratoi'r lluniaeth.

Gwasanaeth Datgorffori
Cafwyd gwasanaeth yng Nghapel Peniel, Waen Pentir nos Fawrth, Medi 5ed. Roedd yn achlysur dwys ac emosiynol ond eto yn ein hatgoffa am brofiadau melys a gawsom yno, a thros y blynyddoedd roedd swyddogion y capel yn awyddus iawn i feithrin yr ifanc i gymeryd rhan yn gyhoeddus yn yr Ysgol Sul ac yn yr oedfaon. Roedd hyn yn meithrin ein hyder ac yn baratoad da at weithgareddau cyhoeddus mewn sawl maes. Roedd yr oedfa yng ngofal y Parchedig Ddr Huw John Hughes, un a fu yn ffyddlon iawn inni fel cynulleidfa am nifer fawr o flynyddoedd. Croesawyd pawb i'r oedfa gan Cynrig ac ef hefyd a adroddodd hanes yr achos ym Mheniel. Roedd wedi ymchwilio i hanes cynnar y capel a'i gyflwyno inni mewn modd diddorol iawn. Cawsom anerchiad perthnasol i'r amgylchiad gan y Parch. Huw John Hughes, a braf oedd gweld rhai o'r pentref a chyn-aelodau, o bell ac agos, wedi dod atom i'r oedfa. Rhaid nodi fod llawer o'r cyn-aelodau yn weithgar iawn yn eu cymunedau a'u capeli, yn flaenoriaid ac yn athrawon Ysgol Sul, enghraifft eto o'r fagwraeth a gawsom ym Mheniel, ac rydym yn ddyledus iawn i'r rhai a roddodd o'u hamser inni yn y gorffennol. Cafwyd Datganiad Datgorffori ar ran Cyfundeb Gogledd Arfon gan yr ysgrifennydd, Ifor Glyn Efans.

Cyn traddodi'r weddi ar ddiwedd y cyfarfod darllenwyd yr englyn hwn o waith y Parch. Meirion Evans:

Un awr cyn cloi y dorau i gofio
holl gyfoeth ein doeau,
rhoi oes aur a'i thrysorau
i ogof y cof cyn cau.

Wedi'r oedfa cafwyd lluniaeth yn y Neuadd, lle roedd eto dipyn o siarad am atgofion melys a gawsom yn ein magwraeth ym Mheniel. Diolch i Cynrig am drefnu'r gwasanaeth, am gynhyrchu'r daflen ac am gysylltu â'r cyn-aelodau. Diolch i Carys am drefnu'r lluniaeth ac i Nia a Gwen am helpu yn y Neuadd.

Llwyddiant llenyddol
Y mae Osian Rowlands, Bron y Waun wedi cael ei dderbyn i Sgwad Sgwennu Gwynedd am y flwyddyn 2017/2018. Er mwyn cael ei dderbyn rhaid oedd iddo ysgrifennu dwy stori, un Gymraeg ac un Saesneg, a chafodd ei ddewis allan o 40 o blant Ysgolion Cynradd Gwynedd. Yn ystod y flwyddyn bydd cyfle iddo gael ei hyfforddi mewn sesiynau arbennig yn Nhŷ Newydd, Llanystumdwy gan amrywiol feirdd a llenorion Cymraeg. Aneurin Karadog oedd yn gyfrifol am y sesiwn hyfforddi cyntaf ar Fedi 24ain. Da iawn ti, Osian, a hwyl fawr i ti yn Ysgol Dyffryn Ogwen. Beth am ysgrifennu pwt inni yn nes ymlaen am dy brofiadau yn Nhŷ Newydd?

Clwb Rhiwen
Cyfarfod Medi 14. Braf oedd cael cyfarfod wedi seibiant dros yr haf. Yn arferol dyma'r amser pan fyddwn yn trefnu rhaglen o Fedi hyd at y Nadolig ac y mae amrywiaeth o weithgareddau wedi'u trefnu. Ann oedd yn gyfrifol am i baned, a Gareth enillodd y raffl.

Cyfarfod Medi27._Buom yn trafod sawl dathliad yn 2017, fel cofio am Hedd Wyn ac amryw eraill. Eleni, roedd yn 75 mlynedd ers i filwyr yr Unol Daleithiau ymuno yn yr Ail Ryfel Byd a diddorol oedd clywed fod rhai wedi bod yn cynnal ymarferiadau o gwmpas Mynydd Bach. Roedd Irene a Dilys yn cofio hyn yn iawn, a Mair yn cofio eu gweld yng nghyffiniau Deiniolen. Oes rhywun yn gwybod ble roeddent yn lletya ac am faint o amser y buont yn yr ardal? Os oes rhywun ag atgofion amdanynt, gadewch inni wybod os gwelwch yn dda. Frances wnaeth y baned, a John enillodd y raffl.

Diolchiadau
Dymuna Carol, Caren, Dyfed, Osian a theulu'r diweddar Tom Gwyn Jones ddiolch o galon i'r teulu, ffrindiau a'r cymdogion yn Rhiwlas a Dyffryn Ogwen am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth annisgwyl. Diolch hefyd am y llu cardiau, llythyrau, galwadau ffôn, ymweliadau a'r rhoddion hael a dderbyniwyd er cof am Gwyn tuag at Ward Prysor, Ysbyty Gwynedd.

Arwyddion 20 m.y.a.
Mae'r arwyddion yma nawr wedi eu gosod y naill ochr i'r ysgol, a mawr obeithir y bydd gyrrwyr yn cymeryd sylw ohonynt. Yn wir, y mae goryrru yn boendod yn y pentref. Diolch i'r rhai a fu'n gyfrifol am gael yr arwyddion yma er diogelu taith y plant i'r ysgol.

Brysiwch wella
Y mae Sarah Jones, Bron y Waun heb fod yn dda ers tro ac wedi mynychu Ysbyty Walton, Lerpwl sawl gwaith yn ddiweddar. Ein dymuniadau gorau am adferiad iechyd buan, Sarah, a chofion hefyd at drigolion y pentref sydd hefyd heb fod mewn llawn iechyd yn ystod y misoedd diwethaf.

Noson Calan Gaeaf
Y mae Pwyllgor y Neuadd yn trefnu noson yn y Neuadd nos Fawrth, Hydref 31 am 6 o'r gloch. Fe geir cystadleuaeth gwisg ffansi i'r oedrannau yma - hyd at dair oed, Cyfnod Sylfaen 3-7oed, Adran Iau 7-11, a chystadleuaeth agored i blant hŷn ac oedolion. Fe fydd cystadleuaeth pwmpen hefyd, i'w goleuo â batri, os gwelwch yn dda. Fe fydd lluniaeth hefyd, y tâl mynediad fydd £2 i oedolion a £1 i blant. Dewch draw i gefnogi'r noson.

Gêm FIFA 18
Rwyf yn ysgrifennu am yr uchod fel un sydd erioed wedi chwarae gêm gyfrifiadurol! Bu Gwyn, Erw Wen gynt, yn trafod y gêm ar y rhaglen *Ar y Marc* gyda Dylan Jones. Mae Gwyn yn gweithio i gwmni AE, enw mawr ym myd gemau cyfrifiadurol yn ôl a ddeallaf ac y mae wedi llwyddo i gael baner Cymru a barf Joe Ledley yn rhan o'r gemau hyn. Da iawn Gwyn, doedd hyn ddim yn hawdd yn ôl pob tebyg. Dw i ddim yn meddwl y byddaf yn chwarae'r gêm ond mae disgwyl mawr amdani yn ôl pob sôn.

Merched y Wawr
Yn ein cyfarfod cyntaf o'r tymor braf oedd gweld cynifer wedi troi i fyny ar noson wlyb a gwyntog. Cafwyd ymddiheuriadau gan Carys ac Annes. Croesawyd aelod newydd sef Mrs Olwen Williams o Fethesda. Braf oedd gweld Carol wedi dod atom a Caren wedi troi i mewn hefyd a chydymdeimlwyd â'r ddwy yn eu profedigaeth sydyn o golli Gwyn a oedd yn annwyl ganddynt fel teulu. Roeddem hefyd yn ymfalchïo yn llwyddiant Annes yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Dymunwn yn dda hefyd i Gwyn, mab Linda a Melfyn, ar ei briodas â Bronwyn yn Vancouver yn ddiweddar. Ein gŵr gwadd oedd y Prifardd Ieuan Wyn a chawsom sgwrs ganddo am y Dywysoges Gwenllïan, unig blentyn Llywelyn ap Gruffudd, ein Llyw olaf, Tywysog Cymru, ac Eleanor De Montfort. Rai blynyddoedd yn ôl bu erthygl yn y Guardian gan Byron Rogers yn dwyn y teitl 'The Lost Children' a dyma mae'n debyg a ysbrydolwyd amryw i ddod i wybod mwy am y plant colledig yma. Pwy oeddent? Gwenllïan oedd un, merched y Tywysog Dafydd a'i feibion ac fe'u carcharwyd dan orchymyn Edward I er mwyn sicrhau diddymu llinach Tywysogion Cymru. Roedd Richard Turner, cyn-longwr o Gaernarfon, am sicrhau cofeb i Gwenllïan ac yn 1996 sefydlwyd Cymdeithas y Dywysoges Gwenllïan i gadw ei henw ar gof a chadw. Yn 2001 fe gafwyd

cofeb yn Sempringham lle bu'n byw mewn lleiandy am 54 o flynyddoedd. Heb fod nepell oddi wrthi yn Abaty Sixhills roedd ei chyfnitherod ac fe garcharwyd meibion Dafydd yng ngharchar Bryste. Mae hanes y Plant Coll yn ddirdynnol ac fe gawsom wybodaeth gynhwysfawr amdanynt gan Ieuan Wyn a diolchwyd iddo am ein cyflwyno i'r hanes trist yma.

Nia a Iona oedd yn gyfrifol am y te, a Dilys enillodd y raffl.

Gwyn a Bronwyn

Clwb Hanes Rachub

Croesawyd Mrs Brenda Wyn Jones draw i Festri Carmel ddiwedd mis Medi, i sgwrsio gyda ni am Megan Llechid [neu Madam Tellini], ac yn wir, roedd yn gychwyniad campus i'r tymor newydd! Fel y gŵyr nifer helaeth o ddarllenwyr Llais Ogwan, nain Brenda Wyn Jones oedd arweinyddes Côr Merched y Penrhyn, - y côr a deithiodd wledydd Prydain i gasglu arian i deuluoedd y streicwyr ym 1901-1902. Ond nid am hanes ei nain na'r côr oedd Brenda am sgwrsio y tro hwn , ond am un aelod arbennig o'r côr enwog hwnnw, sef Megan Llechid. Cafodd Megan Llechid ei geni a'i magu yn Rhes Douglas, Bethesda, ond mae'n amlwg fod ei theulu yn hannu o Lanllechid, gan mai ei thaid oedd y gohebydd a'r awdur 'Llechidon', a'i thad oedd 'Trebor Llechid' a arferai ysgrifennu i 'Faner ac Amserau Cymru'.

Roedd gan Megan Llechid lais soprano gwych, a daeth i'r brig mewn cystadlaethau eisteddfodol ar hyd a lled y wlad. Roedd wedi derbyn 350 o wobrau cyn ei phenblwydd yn un ar hugain! Ond yn Eisteddfod Genedlaethol Blaenau Ffestiniog, 1898, Megan ddaeth yn fuddugol ar yr unawd soprano. Yna, daeth cyfnod y Streic Fawr, a bu'n teithio gyda'r côr am fisoedd ar y tro yn perfformio i gasglu arian. Ar ôl priodi, symudodd i Gaeredin ac yna i Lundain ble dechreuodd ganu unwaith eto. Derbyniodd hyfforddiant penigamp, a chafodd fynd i'r Eidal i gael gwersi, ac yno, wrth gwrs, y newidiodd ei henw i Madame Tellini gan nad oedd 'Megan Llechid' yn swnio fel enw cantores operatig o'r cyfnod! Bu'n perfformio yn 'La Scala' Milan a gwnaethpwyd sawl recordiad o'i llais. Cafodd ei chyflwyno i'r Brenin Siôr y 5ed ym Mhalas Buckingham, ac i Edward y 7fed, hefyd, ym 1936. Bu farw ym 1940 ym Mhenbre, ac fe'i claddwyd yng Nghaergybi. Mae'n rhyfedd meddwl fod perfformwraig mor enwog (yn ei dydd) wedi dod o'r ardal hon, a fawr neb yn cofio amdani. Diolch, Brenda, am roi'r sylw haeddiannol iddi!

Cofiwch am ein cyfarfod nesaf, - Hydref 25 - ***'Ddoe yn y Dyffryn'*** [ail gyfres] yng nghwmni Dr J. Elwyn Hughes.

Clwb Hanes Rachub a Llanllechid.
Nos Fercher, Hydref 25
am 7 o'r gloch yn Festri Capel Carmel.
Bydd sgwrs a sleidiau gan
Dr J. Elwyn Hughes
'Ddoe yn y Dyffryn (2)'

CROESO CYNNES!

Reis Chilli a Chyw Iâr

300g o reis basmati wedi'i ferwi (1 cwpan reis I 1¾ o ddŵr). Berwi am 10 munud, rhoi'r gwres i ffwrdd a gadael am 10 munud arall, heb godi'r caead.
2-3 brest cyw iâr wedi'u torri'n stribedi.
40g gwreiddyn sinsur (tynnu'r croen a'i gratio'n fân).
2-3 chilli coch (wedi'u torri'n fân, fân).
1 ewin o arlleg.
Halen môr a phupur du.

Curwch 2 ŵy efo 2 lwy fawr o saws soy.
6 nionyn bach (salad) wedi'u torri'n fân, a bwnsiad da o goriander.

Browniwch y cig yn ysgafn, ychwanegwch y garlleg, y chilli a'r sinsur mewn wok, a'u ffrio nes bod y cig wedi'i wneud drwyddo.

Ychwanegwch y reis a'r halen a'r pupur, a'u troi yn y wok am ryw 5-7 munud. Diferwch y ŵy/soy dros y cwbl. Gorchuddiwch efo ffoil tew a rhoi'r gwres i ffwrdd (o adael I'r wyau sefydlu).

Cyn ei rannu allan, torrwch y nionod bach a'r coriander a'u cymysgu i mewn.

Gellwch ei fwyta yn boeth, neu'n oer mewn bwffe.

Ysgol Llanllechid

Ffarwelio a Chroesawu
Dymuniadau da a diolch i Ms Holly a Ms Elin Mair. Braf cael dweud fod y ddwy wedi dechrau ar eu hastudiaethau ym Mhrifysgol Bangor ym mis Medi ar ôl derbyn profiadau lu yn Ysgol Llanllechid dros y blynyddoedd. Pob dymuniad da i chi eich dwy. Mae'r ddwy yn dilyn ôl troed Ms Ceri, sydd erbyn hyn yn gweithio fel athrawes yn Ysgol Rhiwlas. Cofion atoch Ms Ceri! Dymuniadau da a diolch hefyd i Mrs Rhian Jones, sydd wedi dychwelyd i weithio yn y chwarel – ond y tro hwn i fwyty Blondin ym myd y Weiren Wib! Edrychwn ymlaen at gael dod draw yn fuan am bryd o fwyd blasus Rhian! Croeso cynnes i Ms Lliwen a Ms Thelma, sydd eisioes wedi setlo hefo ni yn arbennig o dda.

Ffair Ysgol Llanllechid
Pleser ac anrhydedd mawr oedd cael Deian a Loli i agor y Ffair, ac roedd ciw hir o blant yn aros yn amyneddgar ar gyfer derbyn y posteri ac, wrth gwrs, eu llofnodion! Ychwanegodd Sarah Louise a'r Band, a'r Dawnswyr Morus at awyrgylch y prynhawn – hyfryd dros ben! Cafwyd cefnogaeth aruthrol gan yr ardal gyfan, a diolchwn i chi i gyd am fod mor barod i gefnogi Ysgol Llanllechid, flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae eich caredigrwyd a'ch haelioni fel ardal destun rhyfeddod dro ar ól tro a gwerthfawrogir y cyfan yn fawr iawn. Diolch arbennig i'r Pwyllgor gweithgar am eu holl waith diflino wrth drefnu a pharatoi ar gyfer y diwrnod mawr ac i bawb a fu'n helpu yn y gegin ac ar y stondinau amrywiol.

Gwnaethpwyd elw o dros £1,800, sy'n swm anrhydeddus i'w ychwanegu at gronfa'r ysgol. Bydd yr arian yn ddefnyddiol iawn ar gyfer cynorthwyo gyda'n teithiau addysgol yn y dyfodol. Diolch yn fawr unwaith eto i bob un ohonoch.

Priodas
Llongyfarchwn Ms Anna a Dewi,ei gŵr, ar eu priodas yn ddiweddar. Cafwyd dathliad hyfryd ym Mhortmeirion a'r briodferch a'r briodfab yn edrych yn hynod o hardd. Pob dymuniad da i chi eich dau i'r dyfodol.

Dosbarth Meithrin
Erbyn hyn, mae ein plant Meithrin wedi hen setlo yn yr ysgol a braf eu gweld wrthi'n ddiwyd yn ymwneud â'r gwahanol dasgau ac yn paratoi at y cyflwyniad Diolchgarwch, a gynhelir ar Hydref 27.

Capel Carmel
Unwaith eto eleni, braint yn wir oedd cael mynd draw i Gapel Carmel i'r Gwasnaeth Diolchgarwch i ryfeddu at ddoniau ein plant bach a gwerthfawrogi cyfranaid y disgyblion sy'n eu harddegau, sef y Clwb Dwylo Prysur. Braf eich gweld pob un, a llongyfarchion am eich holl lwyddiannau mewn amrywiol feysydd. Diolch arbennig iawn i Mrs Helen Williams a'i thîm: Mrs Wendy Jones, Mrs Helen Roberts, Mr Northam, Mrs Ann Marie Jones a Mrs Magi Bryn am eu holl ymroddiad a'u gwaith caled. Diolch hefyd i Mari Rowlinson am ei chymorth hithau.

Parchedig John Pritchard
Diolch i'r Parchedig John Pritchard am ddod draw i'n hysgol i gynnal gwasnaethau boreol. Cyflwynwyd nifer o straeon, ac roedd y plant yn glustiau i gyd, yn enwedig wrth wrando ar stori Samuel ac Eli.

Coed Eithinog
Fel rhan o'r thema am fwystfilod bychan cafodd disgyblion blwyddyn 6 froe difyr dros ben yng Nghoed Eithinog yng nghwmni Mr Ben Stammers, tad Mabon. Cafwyd hyd i lawer o fwystfilod bychan, a'r plant yn dysgu cymaint, diolch i arbenigedd Mr Stammers.

Moel Wnion
Aeth disgyblion blwyddyn 6 ar daith gerdded fendigedig i gopa Moel Wnion gyda Mr Stephen Jones, tad Dafydd a Daniel o Gwmni Anelu a Mr Cemlyn Jones. Cyn dychwelyd, achubwyd ar y cyfle i fynd i ben Moel Faban, yn ogystal.

Taith Natur
Cafodd dosbarthiadau Mrs Marian Jones, Mrs Bethan Jones a Mrs Nerys Tegid ddiwrnod hyfryd yn astudio coed a ffrwythau'r Hydref mewn dau leoliad ar Ynys Môn. Yn y bore, cawsom grwydro gerddi a choedwig Plas Newydd,ac yn y p'nawn cawsom gwmni'r naturiaethwr enwog (a thad Mabon), Mr Ben Stammers. Cawsom ein tywys i goedwig Borthamel, a chael dysgu am bob math o greaduriaid a phlanhigion gwyllt.

KiVa
Daeth dwy aelod o staff KiVa o'r Ffindir i ymweld ag Ysgol Llanllechid, gan edrych ar y ffordd barchus a bonheddig y mae ein disgyblion yn ymddwyn tuag y naill a'r llall. Gwelwyd hefyd sut ydym yn gweithredu'r cynllun KIVA, gwrth-fwlio yma.

Beicio
Yn ystod y mis bu disgyblion blwyddyn 6 yn perffeithio eu sgiliau beicio ar hyd y lonydd lleol gan ddysgu am dermau megis safle cynradd a safle eilaidd. Diolch i'r hyfforddeion.

Taith Dosbarth Derbyn
I gyd-fynd gyda'r thema Blasus a'r gân 'Tu ôl i'r dorth mae'r blawd', cafodd blwyddyn Derbyn drip i Melin Llynnon yn Llanddeusant i weld sut mae grawn yn cael ei falu a'i droi yn flawd. Tra roedd Rhys yno yn adrodd hanes y felin a sut roedd y melinydd yn malu grawn wrth un ciwed o blant, aeth y criw arall gyda Sam i ymweld á thai crynion y Celtiaid er mwyn dysgu sut roedd pobl yn ffermio flynyddoedd yn ôl. Cafwyd cyfle hefyd i ymweld ag adfeilion hen fecws Llynnon. Cafwyd diwrnod arbennig o dda, a diolch i Ms Llinos Parry am fynd i'r safleoedd hyn y dydd Sadwrn blaenorol, i sicrhau llwyddiant y daith. Cafodd Dosbarth Derbyn hefyd daith i archfarchnad ym Mangor i ddysgu mwy am fwydydd.

Taith Blwyddyn 1
Bu dosbarth Mrs Rona Williams yng Nglynllifon a Chastell Penrhyn yn dysgu am gynefinoedd a'r goedwig. Bu gwrando astud ar chwedl Cimlyn Troed Ddu a chafodd pawb gyfle i adrodd a chofnodi'r stori hon yn ôl yn yr ysgol. Cafwyd cyfle i grwydro o amgylch gerddi Castell Penrhyn.

Nofio a Plas Ffrancon
Ar hyn o bryd, mae dosbarth Mr Stephen Jones yn nofio ac yn cael hwyl dda arni. Mae dosbarth Mrs Marian Jones yn cael hwyl hefyd ym Mhlas Ffrancon yn datblygu sgiliau pél. Diolch i staff Plas Ffrancon am eu cymorth.

Côr y Penrhyn

gan Derfel Roberts

Cyngherddau lu yn cynnwys un ar safle'r Wifren Wib.
Wrth gwrs, bara menyn y côr yw'r llu cyngherddau sy'n ein disgwyl ym Miwmares a Llandudno ac mae'r côr wedi ymddangos i fonllefau o gymeradwyaeth yn y ddau le hwnnw eisoes yn ystod Mis Medi ac mae llawer mwy i ddod. Ar hyn o bryd mae'r aelodau'n brysur yn dysgu darnau newydd a fydd yn cael eu perfformio fel rhan o'n rhaglen o ganeuon ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

Sêr Rygbi'n canmol cyfraniad y côr yn 'Blondin'
Cafwyd un perfformiad mwy anghyffredin ar Nos Fercher, Medi 27, pan fu'r côr yn perfformio yn noson agoriad swyddogol yr adeilad mawr hardd sy'n cynnwys arddangosfa, swyddfeydd a thŷ bwyta newydd y Wifren Wib (Zip World) yn Chwarel y Penrhyn. Yn rhan o'r datblygiad newydd mae'r tŷ bwyta o'r enw 'Blondin' sydd wedi agor eisoes gyda bwydlen wedi ei chynllunio gan y cogydd enwog, Bryn Williams. Roedd hon yn noson a gynhwysai wahoddedigion o bob cwr o fyd busnes a thwristiaeth yng Nghymru ac fe gafodd cyfraniad y côr ei werthfawrogi'n fawr gan bawb oedd yn bresennol. Ymhlith y gynulleidfa fawr roedd y cyn chwaraewyr rygbi rhyngwladol, Martyn Williams, Scott Quinell a Rupert Moon ac roedd nifer o sêr y llwyfan a byd y teledu yno hefyd.

Cymeriadau'r Côr

Cyfres yw hon sy'n rhoi ychydig o fanylion am aelodau Côr y Penrhyn. Yr aelod y mis hwn yw Kevin Coleman o Ddwygyfylchi.

1 **Be' ydy dy enw llawn?** Kevin Coleman.
2 **Oed?** 60 mlwydd oed.
3 **Gwaith?** Swyddog Cynnal a Chadw gyda Grŵp Cynefin.
4 **Lle wyt ti'n byw?** Dwygyfylchi.
5 **Un o le wyt ti'n wreiddiol?** Llanfairfechan.
6 **Pa dri pheth fasai'n dy ddisgrifio orau?** yn barod i ddysgu; yn wrandawr da ac yn awyddus i helpu eraill.
7 **Ers faint wyt ti'n aelod o'r côr?** Ionawr 2015.
8 **Pa lais wyt ti?** Tenor Cyntaf.
9 **Pam wnest ti ymuno â Chôr y Penrhyn?** Roeddwn yng Nghonwy yn ystod gwyliau Nadolig 2014 ac roedd rhai o aelodau'r côr wedi cerdded drosodd o Lanfairfechan am beint neu ddau yn y Liverpool Arms. Diwrnod penblwydd Arwel Gelli, un o aelodau'r côr, oedd hi ac roeddwn yn adnabod llawer o'r hogia, felly mi wnes i ddechrau canu efo nhw a dyna lle dechreuodd y siwrnai.
10 **Pa un ydy dy hoff gân yn rhaglen y côr?** Mae gen i dair cân dwi'n eu cyfrif fel ffefrynnau a'r rheiny ydy – 'Benedictus', 'Pererin Wyf' a 'Cŵyn Y Gwynt'.
11 **Pwy ydy dy hoff ganwr/gantores?** Hywel Thomas, (Hywel "Bear") tenor cyntaf o'r côr yn enwedig pan mae o'n canu'r unawd yn 'Cŵyn y Gwynt.' Llais da!
12 **Beth ydy dy farn di am ganu pop?** Dwi'n hoffi "pop" achos does na ddim byd fel dipyn bach o "Abba" i gael pobol ar eu traed i ddawnsio.
13 **Oes gen ti atgof am ryw ymweliad efo'r Côr?** Canu efo band y Black Dyke yn Venue Cymru a chanu yng nghapel St John's yn Llandudno.
14 **Pa ddiddordebau eraill sy gen ti y tu allan i'r côr?** Dwi'n hoffi pysgota môr yn aml efo Clwb Pysgota Pen y Bryn a dwi wrth fy modd yn dilyn Clwb Pêl Droed Dinas Bangor a hefyd dwi'n cael llawer o bleser yn gwneud gwaith DIY.
15 **Oes yna rywbeth faset ti'n hoffi gweld y côr yn ei wneud?** Rydw i wedi bod eisiau canu yn Stadiwm y Principality cyn gêm rygbi Cymru lawer gwaith ac mae hynny'n mynd i ddigwydd yn 2018 pan fydd Cymru yn chwarae yn erbyn Yr Alban ym Mis Chwefror. Mae'r holl gôr yn edrych ymlaen at y digwyddiad hwnnw.

Llais Ogwan
I hysbysebu yn **Llais Ogwan, Neville Hughes** 600853

Pob math o waith trydanol
Huw Jones
Ymgymerwr Trydanol
Trydanwr cymwysedig gyda phrofiad diwydiannol
Y Wern, Gerlan, Bethesda
Gwynedd LL57 3ST
Ffôn: 01248 602480
07967 541870

DAFYDD CADWALADR
Cynhyrchion Coedlannol
Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy losgi coed
01248 605207

Copa
Siop Trin Gwallt a Harddwch
Bethesda 600094
Yn arbenigo mewn trin gwallt merched, dynion a phlant.
Cynghori, gosod a thorri wigiau
Rhai gwasanaethau harddwch a shafio (rasal "cut throat")

Sefydlwyd 1969
m.hughes a'i fab
CONTRACTWYR TOI
Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda
☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765
Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.
Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.
Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.

Croesair Llais Ogwan



AR DRAWS

1 Coch, Tiananmen, Sant Pedr neu Trafalgar (5)
4 Ein perthnasau agosaf yn nhrefn byd natur (5)
10 Busnesu, rhoi eich pig i mewn a thorri ar draws (7)
11 Gwefus (5)
12 Llygaid sydd ddim yn gweld yn unionsyth (5)
13 Diwedd y ffrae a digio blin wrth bysgota amdanynt (7)
15 Dechrau gofyn am fargen wrth brynu'r anifail corniog (4)
17 Un sy'n gweld ei gyfle, a natur y bin ar flaen yr enwair i ddal 13 Ar Draws (5)
19 Yr afon yn bwyta'r glannau (5)
22 Bod ag arswyd (4)
25 Ust ! Trio dangos trugaredd fydd orau (7)
27 Stori werin (5)
29 'Amlaf ei gŵys, amlaf ei -----' *(dihareb)* (5)
30 Ofnadwy a dychrynllyd (7)
31 Pryderu fod y bychan gwlanog ynghanol rhywfaint bach o'r pistyll (5)
32 'Styllan neu blanc (5)

I LAWR

2 Plygu, fel pan yn clymu esgid (5)
3 Mae'r fro yn agos rywsut ; ond af yno'n drwsgl (7)
5 Draenog blin ! (5)
6 '------- o ryddhad' pan fo pethau'n well na'r disgwyl (7)
7 Rhaid ei fod yn ful go fychan os am wneud hyn iddo cyn pwdu ! (5)
8 Fedra i ddim mynd gartref wedi meddwi (5)
9 Mewn llaw agored (5)
14 Lliw ffrwyth (4)
16 Troi yr allwedd gora' i ddatgloi (4)
18 Prif bwrpas papur sychu inc (7)
20 Rod, cyn aelod seneddol Ceidwadol gogledd Clwyd (7)
21 Yr un 'fawr' sydd bron ymhob hen dref yng Nghymru (5)
23 Oedi yn ôl wrth flaen y festri i recordio llun y digwyddiad (5)
24 Mae'r un sydd ar y cwpan yn fyddar (5)
26 Arweinydd nad yw'n arddel democratiaeth (5)
28 Dydd Gwener cyn eich dydd Sul (5)

Atebion erbyn 4 Tachwedd, 2017 i 'Croesair Ebrill'
Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda LL57 3PD

Enw

.....

Cyfeiriad

.....

.....

.....

ATEBION CROESAIR MEDI 2017
AR DRAWS 1 Pupur, 4 Codi, 7 Adar, 8 Igamogam, 9 Alto, 10 Ebychiad, 12 Isotherm, 16 Cysgodi, 18 Gras, 20 Diferion, 21 Awydd, 22 Ffrio, 23 Dysgu
I LAWR 1 Pedwar, 2 Paratoi, 3 Reis, 4 Crasboeth, 5 Diolch, 6 Cadach, 11 Coedwigo, 13 Morgais, 14 Dyddio, 15 Ysmygu, 17 Gwefr, 19 Cnwd
Llongyfarchiadau i'r canlynol am lwyddo i gwblhau croesair Medi yn hollol gywir : Rhian Jones, Rachub; Mair Williams, Mynydd Llandegai; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Dilys W. Griffith, Abergele; Barbara Jones, Jean Hughes, Talybont; Elizabeth Buckley, Dulcie Roberts, Rosemary Williams, Tregarth; E. Rhiannon Hughes, Llanfairfechan; Rita Bullock, Gaynor Elis-Williams; Gwen Evans, Bethesda; Dilys A. Pritchard Jones, Abererch; Karen a Tom Williams, M. A. Jones, Llanllechid; Gareth William Jones, Bow Street; Doris Shaw, Bangor.

Yr ymgais gywir gyntaf o'r het i ennill y wobr oedd cynnig Gwenda Roberts, Gorwel Deg, Rhosmeirch, Ynys Môn LL77 7SJ. Llongyfarchiadau mawr i chi. Atebion erbyn 4 Tachwedd, 2017 i 'Croesair Hydref', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD

Gŵyl Afon Ogwen

Boncathod yn perfformio

Ar daith dan arweiniad Rhys Mwyn

Marchnad Ogwen

Mis cyffrous o'n blaenau ym Marchnad Ogwen - sef mis y ddwy Farchnad! Mae'r Farchnad arferol ar yr ail Sadwrn - sef Tachwedd 11eg a'r llall nos Fercher Tachwedd 22ain o 5 o'r gloch tan 8. Mae digon o nwyddau o bob math ar eich cyfer gyda rhai stondinau yn rhoi cyfle i chi ddechrau (neu hyd yn oed orffen) eich siopa Nadolig!

Yn y Farchnad Dydd Sadwrn, mae'r Stondin Elusen yn cefnogi Cronfa Goffa Tracy Smith. Cewch gyfle i brynu'r jam cartref gorau yng Nghymru gan Neville Hughes yn y Farchnad nos Fercher - gyda'r elw yn mynd at elusennau lleol. Mae yna naws arbennig yn y Farchnad nos. Bydd y Boncathod yn canu carolau unwaith eto - gan gasglu arian at yr Ambiwlans Awyr.

Erbyn hyn, mae 19 stondin barhaol wedi cofrestru gyda'r Farchnad. Rydym yn croesawu Stondin Elusen a Stondin 'Un Tro' yn ychwanegol bob mis. Wrth gwrs, diolch i chi'r cwsmeriaid sy'n ein cefnogi bob mis am ein llwyddiant. Os ydych eisiau llogi'r Stondin Elusen neu'r Stondin 'Un Tro' a wnewch chi gysylltu gyda'r Ysgrifennydd os gwelwch yn dda.

Rydym bob amser yn barod i wrando ar syniadau / awgrymiadau ein cwsmeriaid. Os oes syniad gennych gadewch i'r Ysgrifennydd wybod, ac fe wnawn ein gorau!

Mae gwybodaeth lawn am y Farchnad ar ein gwefan www.marchnadogwen.co.uk a hefyd ar Facebook a Twitter.

Croeso cynnes – dowch draw!

CHWILAIR

A	A	W	F	H	R	M	G	I	E	J	L	C	M	B	V	B	H	X	J
A	U	I	S	V	S	H	A	L	E	I	M	G	V	H	M	D	W	H	U
L	F	D	Y	F	I	Z	M	W	A	X	V	A	D	D	N	A	P	A	U
T	L	O	Q	U	S	O	F	R	D	S	P	Y	Q	Z	G	R	H	C	U
L	M	A	N	W	N	O	Y	O	R	D	L	I	A	S	Z	U	T	F	D
L	X	U	F	D	P	W	R	H	G	C	A	Y	Q	H	W	E	H	O	Y
A	E	E	G	A	Y	E	O	M	H	W	E	C	N	P	T	T	C	B	B
H	C	U	U	J	R	S	P	L	T	M	E	I	H	V	V	D	C	B	B
T	F	R	F	O	G	J	Y	V	I	I	R	N	R	X	I	M	H	T	T
Y	N	O	S	K	O	P	W	N	R	C	M	K	C	B	O	R	C	X	V
H	Y	R	Y	H	S	T	M	G	N	R	E	F	Y	J	D	Z	H	B	C
R	R	W	O	S	C	R	O	A	N	I	I	X	N	I	L	X	J	J	M
N	E	B	R	W	T	R	E	E	X	M	D	X	K	F	U	P	C	Q	Y
O	W	O	I	E	R	L	D	F	E	R	Z	Q	R	O	C	T	D	G	W
F	Y	S	L	A	B	E	Z	E	R	B	E	A	J	K	J	C	L	N	L
A	R	R	C	V	N	A	O	O	G	J	P	W	P	G	S	O	W	J	J
Q	T	U	L	O	F	S	S	V	T	X	E	U	G	H	S	L	Z	E	A
F	X	I	F	W	T	Y	Z	H	K	V	A	G	B	N	K	A	D	S	I
K	O	A	G	D	R	H	B	S	I	U	R	O	X	A	G	X	R	A	E
E	K	K	D	P	A	N	T	O	G	W	B	M	B	J	R	F	U	N	K

AFONYDD GWYNEDD

Yn y chwilair y mis yma mae ENW DEUDDEG AFON YNG NGWYNEDD. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn **un** llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW erbyn TACHWEDD 1. Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobr.

William Elfed Evans, Hen Barc (1932 – 2017)

Elfed Evans yng Nghlwb Criced a Bowlio Bethesda cyn iddo gael ei daro'n wael

(Rhan o'r deyrnged a draddodwyd yn ei angladd yn Amlosgfa Bangor gan Derfel Roberts)

" 'Enigma' – ha - gair o'r Lladin, 'aenigma' a'r Groeg 'ainigma.' Gwreiddyn y gair yw 'ainissesthai,' h.y. 'siarad mewn damhegion' neu ' to speak in riddles'."

Dyna fel y cychwynai sawl sgwrs gyda Elfed – dweud gair ac yntau'n neidio ar y gair ac yn egluro ei darddiad a'i ystyr mewn chwinciad. I nifer ohonon ni, dyn geiriau oedd Elfed – dyn oedd yn blasu geiriau, yn eu mwynhau ac yn hoffi olrhain eu tarddiad ac o'u dadelfennu. *'Connoisseur'* geiriau os mynnwch chi. Doedd o ddim yn blasu bwyd i'r un graddau - roedd o'n ddigon hapus efo bwyd plaen digon cyffredin o'r math roedd o'n ei fwynhau yn nhafarn Gardd Fôn yn y Felinheli efo criw o ffrindiau o Gaernarfon. Roedd y bwyd mewn lle fel y Table Table ym Mharc Menai gyda ffrindiau eraill yn plesio hefyd. Dau air Ffrengig y byddai'n hoff o'u defnyddio oedd *'gourmet'* a *'gourmand'* ond doedd o ei hun ddim yn un o'r rheiny – y gwmnïaeth a'r sgwrs oedd yn bwysig iddo fo. Yn yr un modd doedd ganddo fawr ddim i'w ddweud wrth gerddoriaeth – ni chlywais erioed mohono'n yngan gair am opera na chyngherddau mawr crand, ond câi bleser syml o flaen y teledu yn gwrando ar bartïon ac unigolion yn Eisteddfodau'r Urdd a'r Genedlaethol. Un peth, sydd efallai'n newyddion i rai, ydy'r ffaith fod Elfed yn ffan mawr o'r operâu sebon i gyd, o Coronation Street ac Eastenders hyd at Neighbours a Phobl y Cwm.

Na, dyn geiriau a charwr y clasuron Groeg a Lladin a dramâu neu sonedau Shakespeare yn bennaf oedd Elfed. Roedd ganddo wybodaeth helaeth a manwl o'r ieithoedd Groeg a Lladin a gallai gynnal sgwrs ddeallus mewn Ffrangeg, Eidaleg a Sbaeneg, yn enwedig Sbaeneg, gan iddo dreulio blynyddoedd yn astudio'r iaith honno. Roedd o hefyd yn mynd i'r Costa Del Sol, i le o'r enw Benalmadena (Benalmáddena yn ôl Elfed) am wyliau, weithiau am ddau fis ar y tro. Roedd o wrth ei fodd yn sgwrsio â Sbaenwyr na allai ddim Saesneg a hwythau yn mwynhau siarad gyda William neu'r "Guillermo" roedden nhw 'n ei adnabod. Dylid deall nad oedd o wedi cyflwyno ei hun iddyn nhw fel "Elfed" ond fel *William = Guillerrmo*. Dyna ei enw llawn, William Elfed Evans.

Clasurydd oedd Elfed hyd flaenau'i fysedd. Gŵr yr oedd ffurf a threfn i'w syniadau ac un yr oedd cywirdeb ynganiad a phurdeb ymadrodd yn efengyl ganddo. Beirniadai sylwebwyr y BBC am gamynganu enwau lleoedd Ffrengig neu Sbaenaidd. Yna, os oedd un ohonon ninnau'n mynd i Barcelona – "*Barthelona,*" meddai Elfed gan adrodd deirgwaith - "Barthelona, Barthelona, Barthelona" nes roedden ni wedi cael y neges.

Ie, purydd oedd yn ymylu ar fod yn bedantig ar brydiau, er ei fod yn protestio'n gryf os byddai rhywun yn ei alw'n hynny.

'Y Diawl o'r Bala' oeddwn i ganddo, a hynny efallai am mai fi oedd yn chwarae rhan lladmerydd y diafol yn ei gwmni. Byddwn yn chwilio am ymadrodd Cymraeg neu Saesneg a byddwn yn eu cyflwyno iddo ac yn gofyn iddo am eglurhad. Weithiau, doedd ganddo ddim syniad a minnau wedyn yn gorfod egluro eu tarddiad iddo boed y rheiny o'r Hengerdd neu o'r Mabinogi. Dro arall, defnyddiwn ddyfyniad o un o gerddi Williams Parry, ac roedd ganddo feddwl y byd o Fardd yr Haf ac o'i weithiau. Dyfynnai'n aml o gerddi RWP a chai flas ar drafod rhai o gerddi'r meistr, yn enwedig "Y Llwynog" neu "Clychau'r Gog".

Roedd o'n hynod o hoff o groeseiriau a gallai wneud croesair y Times a'r Telegraph yn ogystal â rhai'r Goriad a Llais Ogwan. Roedden ni, hogia seiat Nos Iau, yn hoffi tynnu ei goes mai gan Brenda Wyn Jones, cyfaill iddo o ddyddiau ysgol, neu gan Karen Williams, ei gymydog, roedd o'n cael yr atebion mewn gwirionedd.

Soniais ar y cychwyn am y gair 'enigma' ac i ni, ei bartneriaid dros rhyw gropar bach o whisgi yn ei gartref, a gwin coch neu ddau yn y clwb criced ar nos Iau, roedd Elfed ei hun yn dipyn o enigma. Ar un llaw, roedd o'n sosialydd o hil gerdd fel ei dad, chwarelwr cyffredin a thlawd, ond ar y llaw arall mi bleidleisiodd dros Thatcher yn yr 80 au. Roedd o'n Gymro twymgalon ar un llaw ac yn ffyddlon i goron Lloegr yr un pryd. Un dydd Nadolig daeth Elfed acw i gael cinio efo ni ac wedi'r gwledda roedd pawb wedi setlo i lawr o flaen y teledu pan ofynnodd Elfed a fuasai'n cael gweld cyfarchiad Dydd Nadolig y Frenhines. Ein hymateb ni oedd dweud nad oedd o'n arferiad gynnon ni i wneud hynny ond y byddem yn fodlon ildio i'w gais am y tro. Pan ddaeth y frenhines ar y sgrîn a dechrau siarad am y flwyddyn a aeth heibio, dyma Elfed yn sythu ei gefn ac yn dechrau ymateb iddi gan dweud pethau fel, ac fe'i dyfynnaf yn y Saesneg gwreiddiol, *"Yes indeed Ma'am", "Very good, Ma'am," "So true Ma'am,"* wrth y set deledu a ninnau'n gorfod ceisio ymatal rhag chwerthin neu fwrw sen ar yr holl beth.

Mae yna doreth o storïau doniol a difyr am droeon trwstan ein cyfaill ac yn y fan yma rhaid cofio nad oedd Elfed yn dechnegydd o fath yn y byd.

Pan brynodd o'r car bach sy'n sefyll y tu allan i'w dŷ hyd heddiw fe'i gyrrodd adre i Hen Barc yn ddigon rhwydd ond y bore drannoeth dyma drio'r car eto ond gyda'r goriad sbâr y tro hwn. Yn anffodus, methodd Elfed gael y goriad sbâr i mewn i'r lle priodol a dyma ffonio'r garej yn Abergele,

"Gwrandwech, fedra i ddim cael y goriad sbâr 'ma i weithio – mae'n rhaid eich bod wedi rhoi'r goriad anghywir i mi", meddai, yn ei Saesneg clasurol.

"Mae'n wir ddrwg gynnon ni syr. Fedrwch chi ddod â'r car a'r goriad i mewn i ni gael golwg arnyn nhw?", atebodd y gwerthwr ceir.

"*Medraf, "* meddai Elfed, *"Mi fydda i draw heddiw".*

A dyma anelu yr holl ffordd yn ôl i Abergele a throsglwyddo'r goriad i'r gwerthwr ceir.

"Gadewch i mi weld syr," meddai'r gwerthwr, gan gymryd y goriad a thynnu'r gorchudd neu'r lawes oddi arno a'i roi yn ei ôl i Elfed gan ddweud,

"*Triwch o rwan syr."*

Ond y stori orau o'r cwbl gan lawer am ddiffygion technegol neu ymarferol ein cyfaill annwyl oedd yr amser hwnnw pan benderfynodd o gael tun o bastai gig Fray Bentos i swper. Tuniau crwn,

tua chwech i wyth modfedd o led wrth fodfedd o ddyfnder ydy'r rheiny a dylid agor y tun cyn ei roi yn y popty i goginio. Nawr, doedd Elfed ddim wedi deall bod rhaid tynnu'r caead i ffwrdd cyn coginio'r cynnwys, felly, dyma dwymo'r tun a'r cynnwys yn y popty heb ei agor. Pan dynnodd yr hen Elfed y tun o'r popty roedd o wedi chwyddo fel peldroed ac oherwydd na allai ddefnyddio teclyn agor tuniau arno roedd o wedi gorfod gwneud twll bwch ar un ochr i'r tun efo gefail bedoli er mwyn ceisio cael y cynnwys allan efo llwy *Knickerbocker glory,* sef un o'r llwyau main, hirgoes hynny roeddech chi yn eu cael i fwyta hufen ia ers talwm. Mi gymerodd tua dwy awr iddo gael y cynnwys allan a'i fwyta yn ôl Twm Bach!

Yr 'hogia' i Elfed oedd y criw oedd yn cyfarfod yn y Clwb Criced ar nos Iau – clwb y bu Elfed yn rhan o'i sefydlu a lle bu'n drysorydd am flynyddoedd ac yna'n llywydd hyd ei farw. Yr hogia hynny ydy Alun 'Barbar' Jones, Tom 'Twm Bach' Williams, Gareth 'Gari Ol' Oliver', Derek 'TV' Griffiths, Richard 'Jeli Beli' Ogwen, Brynmor Jones, Maldwyn Pritchard, Hefin 'Cannon' Jones pan oedd o adre', a minnau – Derfel 'y diawl o'r Bala' Roberts, ac Elfed ei hun fel brenin yn teyrnasu yn ein canol ar sedd uchel bwrpasol ac yn llywio cyfeiriad y sgwrs. Weithiau âi'r dadlau a'r ffraeo dros ben llestri a Elfed yn cynhyrfu ac yn gweiddi nerth ei ben,

"Cau dy geg Richard Ogwen," ond fe ŵyr y cyfarwydd pa mor amhosib ydy'r orchwyl honno. Er hynny, doedd dim dal dig ac erbyn y nos Iau wedyn roedd unrhyw ffraeo wedi ei anghofio a phawb yn cyd-dynnu, am ryw hyd beth bynnag.

Mae yna lawer sy'n fwy gwybodus na fi ynghylch campau Elfed ym myd y chwaraeon ond mae'n debyg iddo fod yn yn gôl-geidwad heb ei ail pan oedd o'n ifanc ac iddo fod yn gricedwr medrus ac wedyn yn ddyfarnwr teg a chraff wedi i'w ddyddiau ar y maes chwarae ddod i ben. Yn y blynyddoedd diwethaf 'ma doedd dim yn well ganddo na gwylio gêm o griced ar y teledu a chael dadansoddi'r chwarae gyda rhywun oedd yn deall rhywbeth am griced. Bu'n chwarae golff yng Nghaernarfon ac yn chwarae bowls i dîm "B" Bethesda yng nghynghrair yr hynafgwyr pan oedd o yn ei 70au a bu'n gefnogwr ac yn farciwr manwl i mi mewn aml i gêm.

"Mi wna i farcio i'r diawl o'r Bala" oedd ei fyrdwn bron bob tro ac mi alla i ddweud heb owns o gywilydd y bydd deigryn ar fy ngruddiau i pan fydda i'n pasio 12 Hen Barc a gweld yr hen gartref yn wag o hyn ymlaen.

Roedd ganddo feddwl y byd o Fethesda ac o Hen Barc yn arbennig. Ar ôl ymddeol, cafodd fyw am dros ddeg mlynedd ar hugain yn ei hen gartref. Roedd o'n hoff iawn o ddweud wrthon ni, "dyna lle ges i fy ngeni," gan bwyntio at y gornel yn ei stafell fyw lle'r arferai ystafell wely ei fam a'i dad fod yn yr hen ddyddiau. Roedd dywediadau ei fam yn glir ac yn ffres yn ei gof. Hoffai ofyn i mi,

"Wyt ti wedi clywed y dywediad yma?" gan ddyfynnu rhywbeth a glywsai flynyddoedd ynghynt gan ei fam. Minnau'n dweud ran amlaf fy mod, ac yntau wedyn yn gofyn,

"Sut oeddet ti'n ei ddefnyddio?"

Minnau'n dweud y peth a'r peth ac yntau'n cau pen y mwdwl , *"fel hyn fyddai mam yn ei ddefnyddio"* gan ddweud, *"Ew, roedd gan mam ddywediadau da a dydw i ddim wedi eu clywed ers blynyddoedd."*

Edmygai ei dad am ei sosialaeth ac am ei unplygrwydd. *" dyn gonest na ellid ei brynu oedd fy nhad ac yn ddyn capel mawr ond byth yn gul."*

Treuliodd Elfed ran helaeth o'i fywyd gwaith yn Buxton, Swydd Derby, ac roedd ganddo gryn feddwl o'r lle hwnnw hefyd a dyma un stori bach arall amdano – un roedd o'n hoff o'i hadrodd ei hun. Pan oedd o'n athro Lladin yn Buxton, roedd Elfed yn gorfod cysgu i mewn fel un o'r athrawon mewn gofal gan fod yr ysgol yn cynnwys nifer o ddisgyblion preswyl a dyddiol.

Roedd yno fetron i ofalu am les y myfyrwyr, ac un tro roedd y metron arbennig honno yn ystafell Elfed pan aeth hi'n ddrwg rhwng y ddau ac yn ei thymer dyma'r metron yn dechrau taflu ei lyfrau tuag ato ac Elfed yn gweiddi arni,

"Madam, ymataliwch ('kindly desist' oedd y term Saesneg a ddefnyddiwyd ganddo*)* nid *'Stopiwch'* neu *'Peidiwch'* ond *'Ymataliwch')*

"Madam, ymataliwch, dwi'n llawn gwybodaeth yn barod."

Dyma i chi eiriau un oedd yn adnabod Elfed yn Buxton yn ôl yn y chwedegau. Mi ysgrifennodd hwnnw, gŵr o'r enw Bob West, y geiriau canlynol ar Twitter / Trydar ac unwaith eto maddeuer i mi am eu dyfynnu yn yr iaith yr ysgrifennwyd hwy:-

"In the 60's I played with Elfed for Buxton when he was Latin Master at Buxton School. A gentleman on and off the field but hilarious when he had a bit to drink. Rest in peace – fond memories."

Ac mi ddywedwn i a phawb arall a gafodd y fraint o'i adnabod, "Amen" i hynny.

Dyn geiriau, ie, ond dyn mwy na hynny, dyn a allai gynnal sgwrs ddiddan am lenyddiaeth neu am griced, am wleidyddiaeth neu bêl-droed, am hanes neu am golff. Roedd Elfed yn un o'r cymeriadau prin hynny, sef *"polymath"*.

"'Polymath', ha – gair da, o'r Groeg *'Poly'* sy'n golygu 'llawer' a'r gwreiddyn *'Mathanein'* sy'n golygu 'dysg'."

Do, torrwyd y mowld ar ôl creu Elfed ac ni fydd ei debyg byth eto. Cydymdeimlwn â'i deulu a'i lu cyfeillion yn eu colled.

Heddwch i'w lwch.

Carneddi

Derfel Roberts, Llys Artro, Carneddi
☎ 600965 hylaw@btinternet.com

William Elfed Evans (Elfed Hen Barc)
Ar Fedi 11 yng nghartref nyrsio Cerrig yr Afon, Y Felinheli, bu farw un o gymeriadau mwyaf ffraeth a diddorol Dyffryn Ogwen pan gollwyd Elfed Evans yn 85 mlwydd oed. Ganwyd Elfed yn 12 Hen Barc ac yno y treuliodd y rhan fwyaf o'i fywyd ar wahân i'w amser yn y fyddin ac yn gweithio oddi cartref. Yn niwedd 2016 fe gafodd ei daro'n wael a bu'n rhaid iddo dreulio blwyddyn olaf ei fywyd mewn ysbytai a chartrefi preswyl neu nyrsio.

Bu'n athro Lladin mewn ysgolion yn Lloegr ond fe'i cysylltir yn bennaf â thref Buxton yn Swydd Derby lle bu'n athro poblogaidd am nifer o flynyddoedd. Yn wir, roedd nifer dda o'i gyn-ddisgyblion a'i gyd-athrawon yn dal i ddod i Hen Barc i ymweld ag ef yn rheolaidd. Roedd ei gefndir yn yr iaith Ladin a'r clasuron o fantais fawr iddo wrth ddysgu ieithoedd eraill ac roedd ganddo feistrolaeth dda ar Ffrangeg ac Eidaleg ond roedd yn rhugl mewn Sbaeneg a hoffai dreulio wythnosau yn ne Sbaen pan fyddai'n mynd yno ar wyliau.

Carai chwaraeon o bob math gan gynnwys criced, pêldroed, golff, tenis a bowlio a bu'n gôlgeidwad medrus pan yn ŵr ifanc. Bu'n drysorydd ac yn llywydd Clwb Criced a Bowlio Bethesda a bydd bwlch mawr ar ei ôl yn y gymdeithas arbennig a fodolai yno.

Ar Ddydd Gwener 16 Medi, talwyd teyrnged haeddiannol iddo yn ei gartref yn Hen Barc gan Gareth Oliver cyn cludo ei gorff i'r gwasanaeth angladdol yn Amlosgfa Bangor dan ofal y Parchg. Dafydd Coetmor Williams. Daeth galarwyr niferus ynghyd i'r amlosgfa ac i'r Clwb Criced a Bowlio i dalu'r gymwynas olaf i ŵr o ddysg eang ac o ddiddordebau amrywiol.

Estynnwn ein cydymdeimlad llwyraf i'w deulu oll yn ogystal ag i'w lu cyfeillion.

DATHLU AGOR LLWYBR LLECHI ERYRI

a hannercanmlwyddiant Cymdeithas Eryri

Dydd Gwener, 10 Tachwedd am 2 – 5 yp

Neuadd Ogwen, Bethesda

gair neu ddau

John Pritchard

YR HEN WREIGAN A MAY A MI

Yr wythnos ddiwethaf mi lyncais bry'. Wn i ddim ai'r annifyrrwch ynteu'r embaras oedd y gwaethaf, a minnau ar y pryd yn arwain cyfarfod mewn capel. Ond mi allaf ddiolch nad oedd hi cynddrwg arnaf fi ag ar y ddynes yn un o lyfrau Pam Adams i blant, *Mi wn am hen wreigan a lyncodd bry'*. Mi fydd gen i fwy o gydymdeimlad â'r greadures honno o hyn allan. Ac ydw, wedi gweld rhywfaint o araith Theresa May yng Nghynhadledd Flynyddol y Ceidwadwyr, mi rydw i hefyd yn cydymdeimlo â'r Prif Weinidog. O'i gweld yn tagu a thuchan trwy ei haraith gallech feddwl ei bod hi wedi llyncu haid o bryfed. Druan ohoni; nid gwaith hawdd oedd traddodi awr o araith a hithau dan annwyd a pheswch mawr.

Mi geisiodd ffrindiau mynwesol Cabinet Mrs May ei helpu trwy gymeradwyo'n frwd er mwyn iddi gael ei gwynt ati. Ond roedd y bonllefau o gymeradwyaeth a groesawai bob saib a phesychiad yn gwneud y cyfan yn dipyn o ffars. Roedd gwaeth i ddod, wrth i'r comedïwr Simon Brodkin gyflwyno ffurflen *P45* iddi ar ganol ei haraith. Ac i goroni'r cyfan, mi syrthiodd un llythyren oddi ar y slogan a ddangoswyd y tu ôl iddi, gan adael y geiriau *BUILDING A COUNTRY THAT WORKS* ***OR EVERYONE*** (yn lle ***FOR EVERYONE***). Neu 'pawb beth'? Neu mi fydd hi'n ddrwg arnom? Neu mi fydd pawb am ein gwaed? Neu mi fydd pawb yn dlotach? Neu mi fydd pawb yn dioddef? Neu mi fydd pawb yn troi at Corbyn? O golli un llythyren, doedd hi ddim yn glir ai addewid ynteu fygythiad oedd y slogan.

Nid sloganau slic ond geiriau Duw yw ymffrost y Cristion. Gallai'r Apostol Paul er enghraifft ddweud fod 'pob Ysgrythur wedi ei hysbrydoli gan Dduw ac yn fuddiol i hyfforddi, a cheryddu, a chywiro, a disgyblu mewn cyfiawnder' (2 Timotheus 3:16). Yr argyhoeddiad hwn mai Gair Duw yw'r Beibl a wnaeth i Gristnogion ym mhob oes ei gredu a'i barchu. Nid rhyfedd hynny o gofio'r parch oedd gan Iesu Grist ei hun at y geiriau a ddarllenai yn yr Ysgrythurau yr oedd o'n gyfarwydd â nhw (ein Hen Destament ni). Ac fel y dengys y Bregeth ar y Mynydd, roedd pob gair a phob llythyren o'r Ysgrythurau'n bwysig i Iesu. Wrth sôn am ei fywyd a'i waith, mae'n pwysleisio iddo ddod i gyflawni'r cyfan a ddywedwyd yn y Gyfraith a'r proffwydi. 'Yn wir, rwy'n dweud wrthych, hyd nes i nef a daear ddarfod, ni dderfydd yr un llythyren na'r un manylyn lleiaf o'r Gyfraith nes i'r cwbl ddigwydd' (Mathew 5:18).

Ac am ei fod mor sicr o werth geiriau Duw y gallai Iesu ategu'r hyn yr oedd Moses wedi ei ddweud o'i flaen, 'Nid ar fara'n unig y bydd rhywun fyw, ond ar bob gair sy'n dod allan o enau Duw' (Mathew 4:4; Deuteronomium 8:3).

Ysgol Llandygái

Rydym wedi cael wythnosau bendigedig 'nôl yn yr ysgol ar gychwyn tymor newydd. Mae'r disgyblion wedi ymgartrefu mewn dosbarthiadau newydd, wedi dod i adnabod athrawon newydd ac wedi cychwyn gwaith ar themâu diddorol iawn. Ac mae'n rhaid dweud ... mae'r disgyblion yn edrych yn ddigon o'r sioe yn eu gwisg ysgol newydd!

Hoffwn groesawu'r teuluoedd newydd sydd wedi ymuno â ni am y tro cyntaf – dw i'n siŵr yr ymgartrefwch yn ddigon sydyn.

Yn ogystal, hoffwn ddiolch o waelod calon i'r gwirfoddolwyr darllen sydd wedi parhau i gynnig eu hamser gwerthfawr i ni eto eleni. Mae'r disgyblion wrth eu bodd eich gweld yn wythnosol ac yn gwerthfawrogi'r cyfle.

Prif Ddisgyblion NEWYDD!

Pleser yw cael cyflwyno ein Prif Ddisgyblion am eleni sef, Isla (*Prif Ferch*), Cadi (*Dirprwy*), Samuel (*Prif Fachgen)* a Cain (*Dirprwy*). Fe'u hetholwyd yn llwyddiannus yn dilyn wythnos o ymgyrch frwd a chan ddilyn cyflwyno eu maniffestos. Cafodd pob disgybl gyfle i fwrw pleidlais a chynhaliwyd gwasanaeth arbennig iawn er mwyn cyflwyno'r pedwar llwyddiannus.

Buom yn ddigon ffodus o gael Hywel Williams AS i dreulio amser gyda disgyblion yr ysgol cyn cyhoeddi enwau'r Prif Ddisgyblion yn y gwasanaeth. Mae ein diolch yn fawr i Mr Williams a hynny o wybod fod ganddo amserlen dynn iawn.

Cynhadledd Comisiynydd Plant Cymru

Yn ddiymdroi, ymgymerodd y Prif Ddisgyblion â'u rôl hynod bwysig. Bu'r pedwar yn bresennol mewn Cynhadledd yn Llanrwst ar ddydd Mawrth y 3ydd o Hydref i gyfarfod â Sally Holland sef Comisiynydd Plant Cymru.

Cawsant ddiwrnod llawn i'r ymylon yn cymryd rhan mewn gweithgareddau diddorol i'w cefnogi i feddwl am syniadau gwych i'w rhoi ar waith yn yr ysgol. Mae'r pedwar wedi llunio camau gweithredu er mwyn codi ymwybyddiaeth disgyblion Ysgol Llandygái am hawliau plant.

Yn dilyn yr ymweliad, braf iawn oedd cael gweld fod Sally Holland wedi trydaru am ei phrofiadau efo disgyblion Llandygái@childcomwales.

Edrychwn ymlaen at weld ymdrechion y disgyblion yn cael effaith.

Teithio am ddim ar fws y TrawsCymru

Mae cynllun wedi ei lansio sy'n caniatáu i bawb deithio am ddim ar rwydwaith bysiau TrawsCymru ar benwythnosau. Mae dau wasanaeth ar gael yng Ngwynedd sy'n cysylltu'r de gyda'r gogledd a'r dwyrain gyda'r gorllewin, sef T2 Aberystwyth - Bangor, a T3 Abermaw – Wrecsam.

Mae TrawsCymru hefyd yn mynd at nifer o atyniadau a gweithgareddau fel y traethau, llwybr yr arfordir, cestyll a Rheilffyrdd Ffestiniog ac Eryri – cyfle gwych i drigolion ac ymwelwyr i'r ardal i wneud y mwyaf o leoliadau arbennig o fewn y sir a thu hwnt.

Am ragor o wybodaeth, ewch i http://www.cy.trawscymru.info/ neu cysylltwch gydag Uned Cludiant Integredig Cyngor Gwynedd trwy e-bostio cludiant@gwynedd.llyw.cymru neu ffonio 01766 771 000.

Rachub a Llanllechid

Angharad Llwyd Beech,
Garnedd Lwyd, 7 Llwyn Bedw LL57 3EZ
angharadllwyd@hotmail.com

Capel Carmel
Trefn Gwasanaethau
Hydref 22: Gweinidog.
Hydref 29: Parch. Dafydd Coetmor Williams.
Tachwedd 5: Gweinidog (Cymun).
Tachwedd 12: Oedfa.
Tachwedd 19: Parch. John Lewis Jones.

Oedfaon am 5.00y.h. oni nodir yn wahanol.

Ysgol Sul am 10.30y.b.
Clwb Dwylo Prysur – nos Wener am 6.30y.h.
Clwb Gwaith Llaw – 2.00 – 4.00y.p, Hydref 30 a Tachwedd 13.
Te Bach yn yr Ysgoldy ar ddydd Llun, Hydref 23, am 2.30 – 4.00y.p.
Croeso cynnes i bawb ymuno.

Ysbyty
Yn ystod y mis bu Cassie Williams yn yr ysbyty. Da deall dy fod yn gwella erbyn hyn. Cofion cynnes hefyd at yr aelodau sy'n sâl gartref.

Angladdau
Cynhaliwyd dau angladd yn y capel yn ystod y mis.

Ar ddydd Gwener, 29 Medi, bu angladd Mr Nefydd Davies, 6 Tan y Gaer, priod Mrs Delia Davies a thad Sandra, Ken, Sheryl, Sharon, Rebecca a'r diweddar Neil. Gwasanaethwyd gan ein gweinidog, y Parchedig John Pritchard.

Yna ar ddydd Mawrth, 3 Hydref, bu angladd Glenys Owena Owen 22 Bron Bethel, chwaer a chwaer yng nghyfraith Bernard a Buddug. Roedd y gwasanaeth yng ngofal y Parch. Olaf Davies, y Parch. Ddr. Huw John Hughes, y Parch. John Gwilym Jones a'r Parch. Dafydd Coetmor Williams. Cydymdeimlwn â'r ddau deulu.

Yr Ysgol Sul
Wrth i ni ail-ddechrau'r Ysgol Sul ym mis Medi buom yn dysgu emynau a Salmau ar gyfer gwasanaeth Diolchgarwch am y Cynhaeaf ym mis Hydref. Mae'r plant wedi bod yn brysur yn gwneud dau furlun hefyd, un o felin wynt, a'r llall o fwydydd o bob math.

Dyma rai o'r plant yn arddangos eu gwaith llaw ynghyd â thri o blant bach sydd wedi dechrau yn yr Ysgol Sul y tymor hwn, sef Efa, Elsi a Morgan. Croeso mawr iddyn nhw ac i unrhyw un fyddai'n dymuno ymuno efo ni am 10.30 ar fore Sul yng Ngharmel.

Clwb Llanllechid
Wedi seibiant dros yr haf, cynhaliwyd y clwb ddydd Mercher, Medi 27ain. Croesawyd pawb i dymor y gaeaf. Croesawyd dwy aelod newydd sef Avril Griffith a Glenys Rowlands. Mae Rita, Margaret Rees Williams, Blodwen a Rhiannon wedi cael eu pen-blwydd ers pan i ni gwrdd ddiwethaf. Rhoddwyd croeso yn ôl i Gwenno, Rhiannon a Blodwen ar ôl iddynt fod yn yr ysbyty. Llongyfarchwyd Rita ar fod yn hen nain i Eila Gwilym, merch Iona a Guto.

Cydymdeimlwyd hefo Rhiannon ar golli ei chwaer. Roeddem yn cofio am y ddiweddar Olwen Lewis a fu'n aelod ffyddlon, a diolch am yr arian er cof.

Cafwyd trip i Moreton Hall a Llangollen yn ystod yr haf a hefyd de bach ym Mhafiliwn Llandygái. Diolchwyd i bawb oedd wedi mynychu'r Fforwm yn Age Cymru ym Montnewydd. Nid oes manylion pellach ar y penderfyniadau yno eto.

Ein gŵr gwadd oedd Mr Tom Rowlands o Borthaethwy. Cawsom sgwrs ddiddorol ar waith y Rotary ganddo.

Rhoddwyd y raffl gan Margaret Owen, a Margaret Rees Williams oedd yr enillydd. Vera a Myfanwy wnaeth y te. Bydd y cyfarfod nesaf ar bnawn Mercher, Hydref 25ain.

Dyweddïad
Llongyfarchiadau i Stephen Owen Williams a Bethan Môn Harvey ar eu dyweddïad yn ystod yr haf. Dymuniadau gorau oddi wrth y teulu i gyd.

Cydymdeimlad
Bu farw Glenys Owena Owen ddiwedd Medi yn dawel ond yn annisgwyl yn Ysbyty Gwynedd ar ôl blynyddoedd o waeledd hir a phoenus, o 22 Bron Bethel, Rachub yn 73 mlwydd oed. Unig ferch y diweddar John Owen Jones a Margaret Jones gynt o 36 Maes Coetmor, Bethesda, chwaer annwyl Bernard a chwaer yng nghyfraith arbennig Buddug. Bu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghapel Carmel Hydref 3ydd. Estynnwn ein cydymdeimlad at y teulu.

Cydymdeimlwn hefyd â theulu William Elfed Evans o Hen Barc, Bethesda a fu farw'n dawel yng nghartref Cerrig-yr-afon yn 85 oed. Roedd yn gwmnïwr diddan, yn gefnder hoff a chyfaill arbennig i lawer.

Diolch
Dymuna teulu'r diweddar Elfed Evans, Hen Barc, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth. Diolch i'r holl ffrindiau ddaeth ynghyd i gofio amdano yn y gwasanaeth yn Amlosgfa Bangor ac yng Nghlwb Criced Bethesda.

Balchder Bro Dyffryn Ogwen

Cyfarfod Blynyddol
yng Nghanolfan Cefnfaes
Nos Fawrth, 7 Tachwedd
am 7.30
Croeso cynnes i bawb

Nant Ffrancon

Capel Nant y Benglog
Hydref 22: Parchg. O.G. Williams.
Hydref 29: Oedfa.
Tachwedd 5: Oedfa.
Tachwedd 12: Oedfa.
Tachwedd 19: Dan ofal Teulu Royal.
Oedfaon am 2 o'r gloch oni nodir yn wahanol. Croeso cynnes i bawb.

Cofion cynnes iawn at Mrs Sheila Williams, Capel Curig, wedi cyfnod yn yr ysbyty. Mae Sheila yn aelod ffyddlon yn Nant y Benglog.

CAFFI COED Y BRENIN
1 Rhes Buddug, Bethesda

Ffôn: 01248 602550

karena@agoriad.org.uk

Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)

Cinio arbennig bob dydd Iau

Bwyd i'w gario allan

Gwasanaeth arlwyo ar gyfer
partïon o bob math -
plant, pen-blwydd ac ati
(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)

Cacennau ar gyfer pob achlysur
e.e. priodas neu ben-blwydd

Prisiau rhesymol

BISTRO'R BRENIN
(Bwyty Trwyddedig)
Rydym yn croesawu partïon
o bob math – dathlu pen-blwydd
ac achlysuron arbennig eraill.
Beth am eich Parti Nadolig?

Gadewch i
Londri Coed y Brenin
wneud eich golchi

Arbenigwr mewn lloriau coed caled

A.G.L.
Lloriau

Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

Elwyn Jones & Co
hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224

Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol
Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar

Swyddfeydd eraill:

Llangefni (01248) 723106 — *Amlwch (01407) 831777* — *Benllech (01248) 852782*

Caernarfon (01248) 673616 — *Pwllheli (01758) 703000)*

Londis Bethesda

☎ 01248 605566
Archfarchnad hwylus
Gwasanaeth personol
gyda'r pwyslais ar y cwsmer
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy
Peiriant codi arian di-dâl
Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr
7 diwrnod yr wythnos

JOHN ROBERTS

Paentiwr
Papurwr
Teilsiwr

Symudol: 07747 628650
Ffôn: 01248 600995

Malinda Hayward
(Gwniadwraig)
Awel Deg
Penygroes, Tregarth.

Am unrhyw waith gwnïo
- trwsio, altro ac ati -

Ffoniwch
01248 601164

Cerbydau Penrhyn
CABIAU A BYSIAU MINI
Ffôn: (01248) 600072

Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd
Contractau

Contractwyr i Wasanaeth
Ambiwlans Gogledd Cymru

Owen's Tregarth
Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd

Arbenigo mewn
meysydd awyr
Cludiant Preifat
a Bws Mini

01248 60 22 60 | 07761 619 475
www.owenswales.co.uk

Llais Ogwan
Dilynwch ni ar trydar
@Llais_Ogwan

Oriel Cwm
Cwm y Glo, Caernarfon

Gwasanaeth fframio lluniau o
bob math ar gael ar y safle
Prisiau rhesymol
Arddangosfa gan artistiaid lleol

Ffôn / Ffacs 01286 870882

RICHARD S. HUMPHREYS

SAMARIAID
Mae
Llinell Gymraeg

0808 164 0123

ar gael bob nos rhwng
7.00pm ac 11.00pm

SIOP OGWEN

Cardiau, CDs, Coffi Poblado, Crysau-T a Hwdis Cowbois, Crefftau, DVDs, Golwg, Llyfrau, Lluniau a llawer mwy!

Am fan hwylus ar y Stryd Fawr, cofiwch am Siop Ogwen am eich holl anghenion siopa! Galwch draw neu rhowch ganiad i'r Siop am ragor o wybodaeth.

33 Stryd Fawr, Bethesda (Drws nesaf i Neuadd Ogwen)
partneriaeth@ogwen.org

01248 208 485

Ysgol Pen-y-bryn

Blwyddyn newydd
Croeso cynnes iawn i blant newydd blwyddyn 3 Ysgol Pen-y-bryn a chroeso mawr i'r plant newydd sydd wedi cychwyn mewn dosbarthiadau eraill. Maent oll wedi setlo'n syth ac yn mwynhau'n eu dosbarthiadau newydd gyda'u ffrinidiau newydd. Gobeithio y gwnewch chi fwynhau'ch amser ym Mhen-y-bryn.

Taith Caerdydd
Yn y bore bach mae'i dal hi yn ôl yr hen ddywediad, a dyna'n union a wnaethom ni fore Mercher ganol mis Medi, pan heidiodd 53 ohonom i Gaerdydd. Roedd pawb yn llawn cyffro ac yn edrych ymlaen at y daith hir-ddisgwyliedig.

Pwll Mawr ym Mlaenafon oedd yr ymweliad cyntaf. Diddorol oedd cael teithio dan ddaear a gweld pa mor anodd oedd amodau gwaith y glowyr a fu. Profiad gwerth chweil ar gyfer ein gwaith hanes y tymor hwn. Anelom yn syth wedyn at Wersyll Yr Urdd ble gawsom groeso penigamp. Cawsom bryd o fwyd blasus, ac yna gêm o fowlio deg. Wel sôn am gystadleuol oeddem ni, heb sôn am yr athrawon!

Y diwrnod canlynol buom yn ymweld â'r Senedd. Bu dadlau brwd yn y Cynulliad ganddom am wahanol faterion cyfoes. Roedd pawb am y gorau i leiso barn. Ymlaen â ni wedyn at uchafbwynt y daith, yn ôl y mwyafrif o'r plant sef ymweliad â Stadiwm y Principality. Gwych oedd clywed y dorf yn bloeddio pan wnaethom gamu ar y cae. Profiad gwefreiddiol.

Fel y gallwch ddychmygu cafwyd taith lwyddiannus a blinedig eto eleni. Profiadau amhrisiadwy i'r disgyblion. Diolch yn fawr iawn i bawb a fu'n gofalu am y plant, a diolch o galon i'r plant am roi enw da unwaith eto i ddisgyblion Pen-y-bryn.

Bore Coffi MacMillan
Cafwyd bore coffi hynod lwyddiannus ar Fedi 29ain, ble casglwyd dros £200. Diolch o galon i bawb am eu cyfraniadau a diolch i'r rhai a fynychodd ein bore coffi. Hefyd, mae diolch mawr i'r staff a fu'n helpu gyda llwyddiant y bore. Rydym yn hynod falch o gael cefnogi elusen mor ofnadwy o bwysig sy'n helpu miloedd o ddioddefwyr canser.

Mynydd Llandygái

Theta Owen, Gwêl y Môr, Mynydd Llandygái ☎ 600744

Ysbyty
Anfonwn ein cofion at Mrs Ann Cook sydd wedi cael llawdriniaeth ond wedi cyrraedd adref o'r ysbyty erbyn hyn. Dymunwn adferiad buan i chi. Cymerwch ofal!

Diolch
Dymuna Mrs Ann Cook ddiolch am y cardiau a'r galwadau ffôn a dderbyniodd ar ôl ei llawdriniaeth. Diolch yn fawr i bawb.

Llwyddiant
Llongyfarchiadau i Myfi Celyn Cooke, Cwm Hyfryd, 9 Gefnan am gael ei dewis yn Ddisgybl y Flwyddyn yn ei dosbarth yn Ysgol Tryfan, Bangor am y llynedd.

Eglwys St. Ann a St. Mair

Hyd 15:	9.30	Cymun Bendigaid (Yr unig wasanaeth yn y Plwyf y Sul hwn.)
Hyd 22:	9.45	Cymun Bendigaid
Hyd 29:	9.45	Boreol Weddi
Tach 5:	9.45	Gwasanaeth Teuluol.
Tach 12:	9.45	Sul y Cofio - Cymun Bendigaid
Tach 19:	9.45	Boreol Weddi.

Estynnwn groeso cynnes i bawb ymuno â ni yn ein gwasanaethau. Cofiwn am bawb sy'n sâl ar hyn o bryd ac anfonwn ein cofion cywiraf atoch i gyd.

Ffair Nadolig yr Eglwys
Cynhelir y Ffair Nadolig rhwng 11 a 2 o'r gloch ddydd Sadwrn, 18fed Tachwedd. Bydd lluniaeth ysgafn ar gael dros yr awr ginio, neu baned a mins pei ganol bore. Estynnwn groeso cynnes i bawb ymuno â ni i wneud ychydig o siopa Nadolig neu am sgwrs a phaned!

Manylion Cyswllt Cynghorwyr Sir Dyffryn Ogwen

Rachub, Carneddi, Gerlan, Braichmelyn
cynghorydd.paulrowlinson@gwynedd.llyw.cymru 01248 605365

Tregarth, Mynydd Llandygái
cynghorydd.dafyddowen@gwynedd.llyw.cymru 01248 605523

Bethesda
cynghorydd.rheinalltpuw@gwynedd.llyw.cymru 07789 742092

Llanllechid, Talybont, Llandygái, Aber, Tyn-y-Maes
cynghorydd.dafyddmeurig@gwynedd.llyw.cymru 07765 400140

@CynghorwyrDyffrynOgwen @PlaidCymruOgwen

I hysbysebu yn **Llais Ogwan, Neville Hughes** 600853 (nev_hughes@btinternet.com)

MODURON PANDY Cyf.

MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio

01248 600619

moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk

Tregarth, Bangor, Gwynedd LL57 4AY

UNIPART CAR CARE CENTRE

Tregarth

Olwen Hills (Anti Olwen),
44 Bro Syr Ifor, Tregarth ☎ 600192
Angharad Williams,
23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth ☎ 601544

Ysbyty
Croeso adref i Morgan Wynne Hughes a dreuliodd chwe wythnos yn Ysbyty Plant Birmingham yn ddiweddar, ar ôl derbyn llawdriniaeth trawsblaniad yr iau. Dymunwn wellhad buan iti, Morgan, a phob lwc i'r dyfodol.

Anfonwn ein cofion hefyd at nain Morgan, sef Mrs Margaret Hughes, Ffrancon View, sydd yn wael iawn yn yr ysbyty.

Llongyfarchion
Llongyfarchiadau mawr i Judah Llŷr Parry, 5 oed o 'Bryn Gwynt' Tregarth, ar ennill lle yn "Sgwad Paratoi Cymru - Gymnasteg Artistig y Dynion". Bydd Judah yn hyfforddi gyda hyfforddwyr o Glwb Gymnasteg Cymru yn Abertawe unwaith y mis. Mae Judah yn Aelod o Glwb Gymnasteg Bangor. Ardderchog yn wir!

Genedigaeth
Llongyfarchiadau i Nia a Roy ar enedigaeth mab, Siôn Wyn, ar 26 Awst. Brawd bach newydd I Dewi Wyn. Llongyfarchiadau hefyd i Sulwen ar ddod yn nain eto, a Thelma a Gareth ar ddod yn nain a thaid eto. Anfonwn ein dymuniadau gorau atoch.

Diolch
Dymuna Nia a Roy ddiolch yn fawr am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar enedligaeth Siôn Wyn.

Pen-blwydd arbennig
Pob dymuniad da i Mona Jones, Ffordd Tanrhiw a ddathlodd benblwydd arbennig iawn ym Mis Medi. Llongyfarchiadau Mona.

Llongyfarchiadau
Llongyfarchiadau i Manon Owen, 9 Tal y Cae ar ei llwyddiant yn y prawf gyrru a hynny am y tro cyntaf. Ar hyn o bryd mae Manon yn fyfyriwr ail flwyddyn ym Mhrifysgol Birmingham. Pwyll rŵan, Manon!

Graddio
Llongyfarchiadau i Elin Haf Taylor, Tal y Cae, Tregarth am ennill gradd Dosbarth Cyntaf mewn Cerddoriaeth ym Mhrifysgol Gaerdydd. Mae Elin wedi dychwelyd i Gaerdydd ym mis Medi i gychwyn cwrs Meistr.

Diolchiadau
Dymuna Elin Haf Taylor, Tal y Cae, Tregarth ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gyfarchion a dderbyniodd yn dilyn ei llwyddiant yn ennill gradd Dosbarth Cyntaf mewn Cerddoriaeth ym Mhrifysgol Caerdydd.

Merched y Wawr, Cangen Tregarth
Wel, dyma gychwyn tymor newydd yn y gangen, a braf ydi medru cyhoeddi fod o leiaf chwech o aelodau newydd wedi ymuno gyda ni eleni. Croeso cynnes i bob aelod ac edrychwn ymlaen i chwyddo'r aelodaeth eto yn ystod y flwyddyn. Mae'n flwyddyn arbennig gan fod y Mudiad yn bum deg oed. Felly, dowch i'r gangen leol i ddathlu'r pen-blwydd!

Ar Fedi 4 cyfarfu'r gangen yn Festri Capel Shiloh a chafwyd noson o sgwrsio, gwledda a darganfod ambell drysor ddaeth rhai o'r aelodau gyda hwy o adre. Croesawyd pawb gan y llywydd, Gwenda Davies. Cydymdeimlwyd gyda Dilys oedd wedi colli ei phriod, Olwen wedi colli ei mam, a Val wedi colli ewythr. Llongyfarchwyd Nesta Williams ar fod yn nain i Eila Gwilym, sef merch fach i'w mab Guto a'i bartner Iona. Llongyfarchwyd Mona am ddathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar, a Dewi Ellis Jones, mab Val, ar ei lwyddiant yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Modedern yn ennill am gyfansoddi darn at gyfer ensemble siambr. Hyfryd oedd medru llongyfarch myfyrwyr a phlant y colegau a'r ysgolion lleol am eu llwyddiant mewn arholiadau o bob lefel. Roedd yn braf gweld Eirwen yn ôl wedi cyfnod hir yn Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Eryri ac roedd yn hynod braf medru croesawu Dysgwyr i'n plith. Llongyfarchwyd Geraint Harper, gŵr Myfanwy, am gael ei anrhydeddu gan Fudiad y Ffermwyr Ifanc am ei waith diflino i'r mudiad ar hyd y blynyddoedd. Dyma wobr a roddwyd iddo gan Mantell Gwynedd.

Anfonwyd cofion at rai o gyn-aelodau'r gangen sydd yn methu dod atom yn ddiweddar ac yn eu plith, Glenys Clarke, Eleanor Holland, Ena Morris Jones, Mair Roberts ac Eirwen Morris. Rydan ni yn colli eu cwmni. Paratowyd lluniaeth at gyfer pawb gan aelodau'r pwyllgor ac enillwyd Cwpan Perthi am y llynedd gan Eirwen Williams, Tyddyn Dicwm. Diolchwyd i'r cyn-swyddogion am eu gwaith yn ein harwain y llynedd ac am y swper anfarwol gafodd pawb yn Cae Drain, cartref Margaret, ym mis Gorffennaf. Diolch o waelod calon, Margaret.

Cyfarfu'r gangen at Hydref 2 a chafwyd noson hyfryd yng nghwmni'r artist o'r Groeslon, Luned Rhys Pari. Mae Luned yn artist unigryw ac mae wedi cael cyfle i arddangos ei gwaith yn Oriel Plas Glyn y Weddw, Llanbedrog ac yn Oriel Môn, yn ogystal ag orielau eraill at draws y byd. Bu'n gweithio fel artist yn y Wladfa, ym Mhatagonia, yn Galisia, Sbaen, ac mewn ysgolion at hyd a lled Cymru. Braint yn wir oedd cael gweld eu gwaith yn Nhregarth! Portreadu pobol yw ei diléit ond ni wna hynny drwy luniau statig ar y wal ond mewn cyfrwng 3D ac maent i gyd yn cael eu fframio mewn blychau pren. Ewch ar y We i weld ei gwaith – mae'n werth ei weld. Bydd yn arddangos yn Oriel Ffin y Parc, Llanrwst ym Mis Mawrth, 2018 ac edrychwn ymlaen yn fawr i weld ei gwaith newydd. Diolchwyd i Luned am noson i'w chofio gan Iona Rhys a pharatowyd y baned gan Alison, Jên, Margaret a Myfanwy.

Bydd y gangen yn cyfarfod nesaf ar Dachwedd 6, a theitl y noson yw 'Arwyddo ar gyfer y Byddar', yng nghwmni tair o aelodau ifanc y gangen sef Andrea, Iona a Jen. Dewch yn llu.

Capel Shiloh
Oedfaon am 5 o'r gloch oni nodir yn wahanol.

Hydref 22 - Gwyndaf Jones, Bangor
Hydref 29 - Ellie Jones, Coed y Parc
Tachwedd 5 - Gwynfor Williams, Caernarfon
Tachwedd 12 - Dafydd Coetmor Williams, Llanllechid
Tachwedd 19 - Trefniant Lleol

DRWS AGORED, BORE GWENER
10-12 O'R GLOCH, CROESO CYNNES
AM GWMNI, PANED A SGWRS

CANOLFAN TREGARTH

CYFARFOD BLYNYDDOL

Cynhelir Cyfarfod Blynyddol Canolfan Tregarth yn y ganolfan

Nos Fercher, Tachwedd 15, 2017 am 7 o'r gloch.

Mae gwir angen aelodau newydd arnom. Croeso cynnes i bawb

Eglwys y Santes Fair
Gwasanaethau
Hydref 22ain - Cymun Bendigaid
29ain - Boreol Weddi
Tachwedd 5ed - Boreol Weddi
12fed - Sul y Cofio - Cymun Bendigaid
19eg - Boreol Weddi

Pob gwasanaeth am 9:30yb ac eithrio Sul y Cofio ar 12fed Tachwedd sydd am 9:45yb.

Braf oedd gweld yr eglwys yn llawn i'r Gwasanaethau Diolchgarwch, a'r eglwys yn edrych mor hardd wedi ei haddurno.

Ffair Hydref
Ddydd Sadwrn, Hydref 28ain am 2yp rydym yn cynnal Ffair Hydref – raffl, tombola, cynnyrch cartref, lluniaeth hydrefol ayyb.

Clwb 100 Canolfan Tregarth

Mis Awst

41	Goronwy Roberts	£15
40	Sulwen Roberts	£10
6	David Hadfield	£5

Mis Medi

35	Tudor Jones	£15
23	Gwenda Davies	£10
15	Buckley Wyn Jones	£5

NEUADD OGWEN

NOSON AGORED

Nos Lun 6 Tachwedd 2017
7.30 y.h.

Cyfle i weld ffilm a wnaed gan yr artistiaid Walker a Bromwich dan y teitl "Llechi a Llafur" ynghyd â pherfformiad gan Gôr y Penrhyn.

Mynediad am ddim ond bydd cyfle i wneud cyfraniadau tuag at Yr Ymddirieolaeth Cancr ymhlith yr Arddegau (Teenage Cancer Trust)
Croeso i bawb

Ysgol Tregarth

Croeso
Mae hi'n bleser cael croesawu'r disgyblion Meithrin newydd i Ysgol Tregarth, sef Pip, Meia, Mia, Harry, Harvey, Ethan, Olli ac Alisha. Mae pawb wedi setlo'n wych ac yn mwynhau dod i'r ysgol i ddysgu a chwarae gyda'u ffrindiau. Croeso hefyd i'r disgyblion sydd yn y Dosbarth Derbyn ac yn cael dod i'r ysgol trwy'r dydd!
Rydym hefyd yn croesawu Marian Hughes sydd wedi cychwyn yn yr ysgol fel cymhorthydd un-i-un a Mr Carwyn Roberts sydd yn ymuno â'r staff addysgu yn rhan-amser. Croeso cynnes hefyd i Miss Emily atom fel myfyrwraig o Goleg Menai. Mae Miss Emily yn weithgar iawn gyda disgyblion y Cyfnod Sylfaen. Croeso cynnes i chi gyd a gobeithio fyddwch chi'n hapus yma yn Ysgol Tregarth.

Dathlu 20 mlynedd
Pwy fyddai'n credu fod Ms Barnes wedi bod yn gweithio yn Ysgol Tregarth ers 20 mlynedd! Cafwyd cyfle i ddiolch iddi am ei holl waith caled a gwerthfawr yn ystod y gwasanaeth un bore. Mae gan bawb feddwl mawr ohonoch ac yn diolch o galon i chi am bopeth rydych yn wneud dros yr ysgol a'r plant. Diolch Ms Barnes!

Castell Biwmares
Thema Dosbarth Llywelyn yr hanner tymor yma yw 'Cestyll a Dreigiau', felly i ffwrdd â ni am dro i Gastell Biwmares, er mwyn cael dysgu mwy am yr hanes a gweld rhannau amrywiol sydd yn yr adeilad. 'Roedd yn ddiwrnod bendigedig, a phawb wedi mwynhau cael cyfarfod y ddraig frawychus oedd ar dir y castell.

Diwrnod Ieithoedd Ewrop
Wythnos diwethaf bu pawb yn mwynhau diwrnod llawn egni a bwrlwm wrth ddathlu 'Diwrnod Ieithoedd Ewrop'. Roedd y diwrnod yn cynnwys nifer o weithgareddau a oedd yn hybu dwyieithrwydd yn ogystal â dathlu amrywiaeth o ieithoedd sydd ar hyd cyfandir Ewrop.

Bake off
Mae'r mis yma wedi bod yn un prysur iawn i GRhA (PTA) yr ysgol gyda llawer o waith codi arian yn mynd ymlaen. Fe gynhaliwyd Bake Off ' yn yr ysgol pnawn Llun Medi 25ain. Bu pawb yn brysur yn coginio cyn i gogydd lleol feirniadu'r gystadleuaeth. Gwerthwyd y cacennau gyda'r elw unwaith eto'n mynd tuag at gronfa'r ysgol. Llwyddodd yr ysgol i gasglu £220.

Talybont

Neville Hughes, 14 Pant, Bethesda ☎ 600853
Barbara Jones, 1 Dol Helyg, Talybont ☎ 353500

Brysiwch Wella
Cofion cynnes iawn at Mrs Rita Thomas, Bryn Celyn, Gatws sydd wedi derbyn gofal dwys yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Brysia wella, Rita! Mae pawb yn holi amdanat ac yn anfon y dymuniadau gorau iti.

Mae'n gweddïau, a'n dymuniadau da am wellhad buan, yn mynd i Logan Sellers, 16, Cae Gwigin sydd ddim yn rhy dda ar hyn o bryd, ac yn gorfod wynebu cwrs pellach o driniaeth. Dim ond yn wyth oed ydi Logan, ac mae o wedi ymddwyn yn hynod o ddewr drwy'r holl driniaethau mae o wedi'u derbyn eisoes.

Newid Aelwyd
Croeso i John a Maureen Evans i 6, Cae Bach. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yn eich cartref newydd. Dod adra' mae John, gan iddo gael ei fagu ychydig o lathenni i ffwrdd yng Nghae Gwigin.

Diolch
Hoffai Alwena, 1, Lôn Ddŵr ddiolch i bawb a brynodd afalau o'r ardd yn ddiweddar. Bydd yr elw'n mynd tuag at yr arian a gasglwyd gan eglwys St Cross pan gynhaliwyd bore coffi Gofal Cancr Macmillan yn ystod y mis.

Bore Coffi
Cynhaliwyd Bore Coffi Cronfa Macmillan yn Y Llechan ar fore dydd Gwener, Medi 29. Diolch i bawb a gyfrannodd tuag at Achos teilwng iawn.

Barbara yn diolch
Diolch o galon i holl gwsmeriaid y 'Llais' sydd wedi bod mor garedig â danfon eu tanysgrifiad blynyddol (£5.50) i'n tŷ ni yn Nolhelyg. Mae hi'n help garw imi, wir.

Eglwys St. Cross
Diolchgarwch
Buom yn dathlu ein Gŵyl Ddiolchgarwch, gan ymuno gyda'r tair Eglwys arall. Diolch i'r aelodau am y croeso. Hoffem ddiolch hefyd am y nwyddau i'r digartref.

Cofion
Anfonwn ein cofion at Rita Thomas sydd wedi bod yn bur wael yn ddiweddar yn Ysbyty Gwynedd, ond yn falch o gael dweud ei bod yn gwella'n raddol. Cofiwn hefyd am rai eraill sydd wedi bod yn cwyno.

Codi arian at Elusen
Cynhaliwyd Bore Coffi Macmillan yn Ysgoldy Maesygroes, dan ofal Cora a Howard Hutchinson. Roedd nifer dda yn bresennol i gefnogi'r achos da. Diolch i bawb am eu rhoddion a'u cefnogaeth.

Capel Bethlehem
Oedfaon
Hydref 22: Oedfa Ddiolchgarwch Deuluol yng nghwmni plant yr Ysgol Sul a'r Parch. John Pritchard.
Hydref 29: Parch. Ddr. Elwyn Richards, Caernarfon;
Tachwedd 5: I'w Gyhoeddi;
Tachwedd 12: Gweinidog;
Tachwedd 19: Parchg. John Lewis Jones.
Oedfaon am 2 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

Bedydd
Cynhaliwyd gwasanaeth hyfryd ar bnawn Sul, 24 Medi, pan fedyddiwyd Enfys, merch fach Gethin a Hafwen Williams. Gweinyddwyd gan ein gweinidog, y Parchedig John Pritchard. Barbara Jones oedd wrth yr organ ac fe gymerwyd rhan hefyd gan Enid Lloyd Davies. Braf oedd cael croesawu'r teuluoedd o'r ddwy ochr, sef Cochwillan a Llanfairpwll.

Bwrlwm
Yn ein cyfarfod ar ddechrau'r mis llongyfarchwyd Llew ac Enfys Jones, 2 Cae Gwigin ar ddathlu pen-blwydd eu priodas yn 69 oed ar 6 Hydref.

Bore Coffi Logan
Rydym wedi penderfynu cynnal Noson Goffi yn y festri ar 25 Hydref am 7 o'r gloch, i godi arian i helpu Logan Sellers, 16 Cae Gwigin sydd yn dioddef o'r cancr. Byddwn yn ddiolchgar iawn am roddion o nwyddau o bob math yn ogystal â rhoddion ariannol.

Yr Ysgol Sul
Braf medru cyhoeddi bod Ysgol Sul Bethlehem wedi bywiogi yn dilyn cychwyn araf ym mis Medi.

Rydym hefyd wedi cael nifer o bobol ifainc i'n helpu gyda'r plant bach. Dyma lun o'r ymarfer ar gyfer y Gwasanaeth Diolchgarwch sydd i'w gynnal ar 22 Hydref am 2 o'r gloch.

Dilynwch ni ar trydar
@Llais_Ogwan

Pwy Sy'n Cofio Ddoe?

© Dr J. Elwyn Hughes

Ar y Bysys 5

Pwy oedd pwy ar y Moduron Porffor (2)
Soniais ym mis Medi am Hugh Alun Jones, y gyrrwr-fecanic, oedd yn gweithio i gwmni'r Moduron Porffor. Dw i'n ddiolchgar iawn i Dafydd (David Elwyn Pritchard) am f'aygoffa am doriad papur-newydd o'r *North Wales Chronicle*, Rhagfyr 12, 1980, yr oeddwn wedi rhoi copi ohono fo iddo. Adroddiad ydyw dan y pennawd 'Bus Driver completes last run', yn cyfeirio at ymddeoliad Hugh ar ôl 34 o flynyddoedd efo'r cwmni. Trefnwyd parti yn ei gartref yn 27 Maes Coetmor, yng nghwmni Doris, ei wraig, a'u pedwar o blant a'u hwyrion, ac ar yr achlysur hwnnw, cyflwynodd Mr Tom Davies, rheolwr y Moduron Porffor, siec i Hugh ar ran y cwmni a hefyd oriawr ar ran ei gydweithwyr.

Fy nyled i Hugh
Uchafbwynt fy ngyrfa gyda'r Moduon Porffor fu cael cynnig gan Mr Tom Davies i gymryd prawf i yrru bws – ond nid unrhyw hen fws chwaith ond y dybl-dec ei hun! A dyna be' *oedd* cael gwireddu breuddwyd o ddyddiau plentyndod. Yn hyn o beth, mae'n rhaid i mi grybwyll y rhan a chwaraeodd Hugh yn fy mharatoi ar gyfer cymryd fy mhrawf gyda'r dybl-dec. Roeddwn wedi bod yn ymarfer ychydig o weithiau ar fysys 'bach' y cwmni, a chan nad oedd cab caeedig i'r rheini, roedd gyrrwr profiadol yn gallu bod wrth f'ymyl yn fy hyfforddi.

Doeddwn i ddim yn gwybod ar y pryd y byddai cymryd fy mhrawf (a phasio) ar fws *single-deck* yn fy nghyfyngu i yrru bysys felly'n unig. Doedd dim rhyfedd felly i Mr Tom Davies ddweud wrthyf mai ar y decar yn byddwn yn cymryd y prawf – a hynny ychydig ddyddiau'n unig cyn y diwrnod mawr! A dyna pryd y camodd Hugh i'r adwy. I ffwrdd â ni yn y decar ryw fore ar hyd Ffordd Bangor, a'r ddau ohonom yn gwasgu dynn at ein gilydd yn y cab cul a chyfyngedig. Cyrraedd Brynbella, bagio'n ôl i Ffordd Tregarth, yn ôl wedyn drwy'r Stryd Fawr i Bont-y-Tŵr, bagio'n ôl yn y fan honno i Ffordd Tregarth ac i ffwrdd â ni wedyn yn ôl at garej y decar (lle mae'r storfa-do-uchel y tu ôl i Siop Londis heddiw). Y drydedd waith y bûm ar y daith honno oedd ar ddiwrnod y prawf – a'r tro hwnnw gofynnwyd i mi bagio'r decar i mewn i'r garej!

Y Prawf Gyrru
Diolch i Hugh, a thalp go fawr o lwc, llwyddais i basio'r prawf y tro cyntaf. Cefais fy mathodyn PSV (*Public Service Vehicle*) drwy'r post ychydig ddyddiau wedyn, fel mae'n digwydd, yr un diwrnod ag y cefais fy ngradd; fe haerai Mr Tom Davies yn aml fod gen i fwy o feddwl o'r PSV nag oedd gen i o'r B.A. (a wnes i erioed wadu hynny!).

Gwilym Griffith
Yn rhifyn Medi hefyd, soniais am Gwilym Griffith, gyrrwr arall a edmygwn y fawr. Yr wythnos ddiwethaf, cofiais fy mod wedi ysgrifennu amdano yn *Englynion Beddau Dyffryn Ogwen* (a gyhoeddais ym 1979). Dyma'r cofnod, gydag englyn yn dilyn gan Gwilym R. Jones:

Ym Mynwent Coetmor, ar fedd Gwilym Griffith, 4 Glanffrydlas, Bethesda, a fu farw Ebrill 22, 1968, yn 43 oed. Gyrrwr bws oedd Gwilym, 'da was, da a ffyddlon, i Gwmni'r Moduron Porffor am flynyddoedd lawer.

Hwn a'n dug i ben y daith – yn siriol
A chysurus ganwaith;
Aed ag ef, – O! Oediog waith!
Yn ei amdo i'w ymdaith.

Leslie Jones
Roedd Les, o'r Gerlan, yn un arall o'r hogia y deuthum yn ffrindiau mawr efo fo. A hynny er gwaetha'r hyn a wnaeth i mi ryw fore Llun pan gyrhaeddais y garej. Roedd rhywun wedi tynnu teiar oddi ar olwyn un o'r bysys ac wedi'i adael ar lawr – yn llwch a baw i gyd. Wnaeth Les ddim lol wrth i mi gerdded heibio iddo fo ond fy nhaflu i mewn i'r teiar nes yr oedd fy nghrys glân y bora hwnnw wedi troi o fod yn lliw gola i fod yn ddu gan faw! Doedd dim amdani ond mynd adra i newid, gan na allwn hel pres y teithwyr ar y dybl-dec yn y cyflwr hwnnw!

Wrth yr enw 'Doctor' yr adnabyddid Les gan yr hogia a hynny oherwydd y byddai'n cynnig tabledi Kwells neu dabledi tebyg i'w deithwyr rhag iddyn nhw fod yn sâl yn ei fws. Yr hen Les yn gweld ymhell, tê!

Cafodd Les a Kathleen, ei wraig, brofedigaeth enfawr pan fu farw eu mab bach, Michael, ac yntau ond yn bedair oed.

I'w barhau

Collwyd yn y Rhyfel Mawr

Ganrif i fis hwn
ER COF
H. WILLIAMS
Milwr Cyffredin 13273
Y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig
A fu farw 2 – 10 – 1917
Yn 33 ml. oed
Mab Jane Williams 1 Short St., Gerlan
a'r diweddar Robert Williams
(Diolch i Andre Lomozik am ei anfon i'r Llais)

MODURDY FFRYDLAS
Profion M.O.T.
Perchennog
A. Ll. Williams
Stryd Fawr, Bethesda
♦ PROFION M.O.T. ♦
GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦TEIARS A BATRIS♦
GWASANAETH TORRI I LAWR
NEU DDAMWAIN
☎ 600723
Ffacs: 605068

Gareth Williams
Trefnydd Angladdau
Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda
Ffôn: (01248) 600763 a 602707
GWASANAETH DYDD A NOS

I hysbysebu yn **Llais Ogwan, Neville Hughes** 600853 (nev_hughes@btinternet.com)

Chwaraeon

Bowlio
Ni ddaeth unrhyw lwyddiant mawr i'r timau eleni gan iddynt ddiweddu'r tymor tua hanner ffordd yn y pedair cynghrair maent yn chwarae ynddynt.

Ar bnawn Sadwrn, Sion Guto orffennodd ar y brig gan ennill 12 o gemau.

Ar bnawn Mawrth, Glyn Roberts oedd y chwaraewr mwyaf llwyddiannus o drwch blewyn, gyda Fred Buckley yn ail. Derfel Roberts oedd seren ddisgleiriaf tîm Maldwyn ac ef oedd y pumed gorau o holl chwaraewyr y gynghrair honno – dros 100 ohonynt. Fred Buckley ddaeth i'r brig yn nhîm nos Fercher gyda Dilwyn Owen yn ail agos.

Tlws Clive Llywelyn
Bethesda yn curo Llanfairfechan o 30 pwynt ac felly'n ailgydio yn y tlws eleni. Y tîm oedd Heddwyn, Bryan, Derek, Gilbert, Elfed, Maldwyn, Glyn ac Emyr.

Cystadlaethau Parau
Buddugwyr eleni oedd D.P. Williams a Hefin Jones a gipiodd y rownd derfynol o 21 i 17 yn erbyn Alan Evans a Des Hughes. Ein diolch i gwmni lleol C.L. Jones am noddi'r gystadleuaeth.

Pencampwyr Timau Cymru
Daeth pedwar tîm – Cunliffe, Brychdyn, Abergele a Biwmares – i'r lawnt leol i chwarae'r gystadleuaeth hon. Yr enillwyr oedd Brychdyn gyda Cunliffe yn ail.

Diolch i Fred, Siôn, John, Richard a Bells am eu gofal o'r lawnt, ac i Wendy a'r holl ferched am eu cymorth yn y gegin wrth baratoi bwyd. Diolch hefyd i'r chwareuwyr am gefnogi eu capteiniaid er derbyn eu cerydd sawl tro gydol y tymor.

BARBWR OGWEN
Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant
gan Alison

Y Douglas Arms
* Te Cynhebrwng
* Gardd Gwrw * Te a Choffi *
Oriau Agor
Llun – Gwener: 6.00 - 11.00
Sadwrn: 3.30 – 12.00
Sul: Pnawn 1.00 - 4.00, Hwyr 8.00 -11.00
01248 600219
Gwefan: douglasarmsbethesda
Cewch groeso cynnes gan
Gwyn a Christine

Tîm 'B' Bowlio'r Hynafgwyr gyda'u capten penigamp

Yn sefyll: Emyr Roberts, Derek Griffiths, Heddwyn Morris, John Baston a George Owen.
Yn eistedd: Gareth Hughes, Maldwyn Pritchard (Capten), Derfel Roberts.
(yn absennol o'r llun mae Gareth Jones, Bryan Owen a Denzil Jones.)

Yn y llun uchod gwelir rhai o aelodau'r tîm a brofodd beth llwyddiant yng Nghynghrair Bowlio Hynafgwyr Gwynedd, Conwy a Môn. O dan eu capten, y Br. Maldwyn Pritchard, llwyddodd y tîm i ddod yn 5ed allan o 11 yn y gynghrair gyda 95 pwynt. Roedd hynny 9 pwynt ar y blaen i dîm 'A' Llanfairfechan a orffennodd gyda 86 pwynt.

Meddai John Baston a Heddwyn Morris, dau aelod blaenllaw o'r tîm, " Mae Maldi Pritch yn haeddu cael ei le yn oriel yr anfarwolion oherwydd mae wedi llwyddo i gadw'r tîm yn hanner uchaf y tabl. Onibai iddo brofi peth anlwc gyda rhai aelodau o'r sgwad byddai'r tîm wedi bod yn uwch."

Mynnai un aelod di-enw y byddai'r tîm wedi bod yn nes i dop y gynghrair pe byddai ef wedi cael ei ddewis i chwarae'n amlach y tymor hwn, ond dadleuodd y capten ei fod wedi gorfod gwneud y dewisiadau ar sail perfformiad yn unig heb ddangos unrhyw ragfarn na ffafriaeth.

Dywedodd y capten, "Mae gen i bob ffydd y byddwn yn darfod yn well y flwyddyn nesa' gan fy mod am geisio tanio pawb gyda'r un ysbryd o beidio derbyn colli a chael pawb i ddilyn fy esiampl o ennill pob gêm rydw i'n ei chwarae."

Ychwanegodd, "Os llwyddaf i ddysgu fy mhartneriaid i beidio gwneud pethau dwl fel blocio fy mheli i neu i beidio eu chwalu pan maen nhw'n pwyso ar y jac, mi fyddwn ar y blaen."